

<u>Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru 2015</u>			
Rheoliad	Esboniad	Pend erfyni ad GC	Sylwadau
Rheoliadau 4A i 4D: Byrddau Pensiynau Lleol.	Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol â Rheoliadau 4A i 4D Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2014 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ac unrhyw gynllun cysylltiedig. Rhaid i reolwr y cynllun roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Byrddau Pensiynau Lleol, ond yr Awdurdod fydd yn dewis yr aelodau.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 5 (2): Dirprwyo	Yn unol â Rheoliad 5(2) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, caiff rheolwr y cynllun ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau gan gynnwys y pŵer i ddirprwyo.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 16(2)(b): Optio allan o'r cynllun. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy i ben.	Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i bennu'r dyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy person i ben os yw'r person yn optio allan o'r cynllun a bod yr Awdurdod yn ystyried bod y diwrnod cyntaf o'r cyfnod tâl cyntaf sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad yr arferwyd yr opsiwn yn amhriodol.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 17(1)(d): Disgresiwn i ganiatáu i daliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus gael eu trin fel rhai pensiynadwy.	Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn o dan Reoliad 17(1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 i ganiatáu i swm a dalwyd i aelod ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus gael ei drin fel tâl pensiynadwy.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen Ei drin fel tâl pensiynadwy
Rheoliad 19 (c): Aelodaeth actif – absenoldeb awdurdodedig di-dâl.	Mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i berson ar gyfnod o absenoldeb awdurdodedig di-dâl gael ei drin fel aelod actif o'r Cynllun. (Ar yr amod bod y person hwnnw yn talu'r cyfraniadau gofynnol o dan Reoliad 111(4)).	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 28 (2): Sefydlu cyfrifon pensiwn: cyffredinol. Disgresiwn i'w gadw ym mha bynnag ffurf a ystyrir yn briodol gan y rheolwr cynllun.	Rhaid i'r rheolwr cynllun sefydlu a chynnal cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ond gellir eu cadw ym mha bynnag ffurf a ystyrir yn briodol gan y rheolwr cynllun.	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn cadw cyfrifon pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun yn y ffurf y mae'r Awdurdod yn ystyried sydd fwyaf priodol.
Rheoliad 37(3), (4) a (5): Cau ac ailsefydlu cyfrif aelod actif. Disgresiwn y rheolwr cynllun i ddewis cyfrif priodol pan fo gan aelod fwy nag un cyfrif.	Os oes gan aelod actif fwy na dau gyfrif aelod actif ac yn rhoi'r gorau i wasanaeth pensiynadwy gyda llai na thri mis o wasanaeth cymwys mewn cysylltiad ag un cyfrif, rhaid cau'r cyfrif hwnnw, a chyfuno'r buddion gydag un o'r cyfrifon eraill; caiff yr aelod ddewis pa un. Os yw'r aelod yn methu â dewis, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ddewis.	Derby n	Os bydd aelod yn methu â dewis cyfrif i'w ddefnyddio er mwyn cyfuno'r buddion, bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif y mae'r Awdurdod yn ei ystyried fel yr un mwyaf priodol. Mae'n debygol mai hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod, ond bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 49(3) a (4): Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch mewn gwasanaeth pensiynadwy nad yw'n hwy na phum mlynedd. Disgresiwn i ddewis pa gyfrif sydd i'w gau os oedd gan yr aelod gohiriedig fwy nag un cyfrif.	Os bydd aelod gohiriedig yn dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy ar ôl bwlch o bum mlynedd neu lai, bydd rheolwr y cynllun yn cau cyfrif yr aelod gohiriedig ac yn ailsefydlu cyfrif yr aelod actif, gan drosglwyddo cofnodion o'r cyfrif gohiriedig. Os oedd gan y person fwy nag un cyfrif aelod gohiriedig perthnasol, rhaid iddynt ddewis – o fewn tri mis i'r dyddiad dychwelyd i gyflogaeth gynllun – pa un sydd i'w gau. Os ydynt yn methu â gwneud y dewis, rhaid i'r rheolwr cynllun ddewis ar eu rhan.	Derby n	Os oes gan aelod fwy nag un cyfrif gohiriedig a'i fod yn methu â dewis pa gyfrif i'w gau, bydd yr Awdurdod yn dewis y cyfrif y mae'r Awdurdod yn ei ystyried fel yr un mwyaf priodol. Mae'n debygol mai hwn fydd y cyfrif mwyaf cost effeithiol i'r Awdurdod, ond bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

Rheoliad 62(1) a (2): Ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr. Disgresiwn i ddyfarnu taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad.	Caiff y rheolwr cynllun, gan roi sylw i reolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau ac ystyried y costau sy'n debygol o godi mewn achos penodol, benderfynu o dan Reoliad 62 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 y dylai aelod actif sydd yn 55 oed neu'n hŷn ond sydd heb gyrraedd yr oedran pensiwn arferol (60), ac yn cael ei ddiswyddo o gyflogaeth gynllun gan gyflogwr am reswm effeithlonrwydd busnes, neu pan derfynir ei gyflogaeth drwy gydsyniad cilyddol ar sail effeithlonrwydd busnes, gael taliad pensiwn ymddeoliad ar unwaith heb y gostyngiad am ymddeoliad cynnar. Yn unol â Rheoliad 120 o'r Rheoliadau, os yw'r rheolwr cynllun yn defnyddio'r disgresiwn hwn i dalu'r pensiwn ymddeol yn gynnar, bydd yn gyfrifol am dalu cyfraniad ychwanegol am ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr a gyfrifir yn unol â Rheoliad 120(2). Byddai hwn yn cael ei dalu i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn unol â Rheoliad 123. Os yw'r rheolwr cynllun yn ystyried gwneud dyfarniad o dan Reoliad 62 ar gyfer aelod cysylltiedig o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, rhaid iddo hefyd ystyried ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr o dan Ran 3, Rheol 6 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu talu buddion yn gynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraid, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gytuno, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd.
Rheoliad 63 (5): Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad	Fel y caniateir gan Reoliad 63 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014, os bydd aelod actif sy'n 55 oed neu'n hŷn yn dewis parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy o dan y cynllun ond yn hawlio taliad o'r pensiwn a gronnwyd hyd at y dyddiad opsiwn yn un neu fwy o'u cyfrifon pensiwn aelod actif, ystyrir bod yr opsiwn o ran-ymddeoliad wedi ei arfer ar ba bynnag ddyddiad a gytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun. Rheolwr y cynllun sy'n penderfynu ar ba ffurf y mae'n rhaid rhoi hysbysiad.	Derbyn	Os bydd aelod sy'n 55 oed neu'n hŷn yn dewis hawlio'r cyfan o'i bensiwn cronedig ond yn parhau mewn gwasanaeth pensiynadwy, bydd yr Awdurdod yn cytuno ar ddyddiad sydd fwyaf addas i'r Awdurdod, gan ystyried y gofynion gweithredol.
Rheoliad 68(1) a (2): Adolygu dyfarniad afiechyd neu daliad o bensiwn ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd. Disgresiwn i	Os gwneir dyfarniad ar sail afiechyd, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw hawlogaeth y derbynnydd dan adolygiad os oedd y person o dan yr oedran pensiwn gohiriedig ar adeg yr adolygiad a'i fod wedi bod yn cael y pensiwn am gyfnod o	Derbyn	Bob 5 mlynedd bydd yr Awdurdod yn cynnal adolygiadau pensiwn afiechyd ar gyfer unigolion sydd o dan yr oedran pensiwn gohiriedig ac sydd wedi bod yn derbyn y dyfarniad am lai na 10 mlynedd a bydd yn adolygu taliad cynnar

ddewis amseriad priodol ar gyfer adolygu.	lai na 10 mlynedd. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i benderfynu ar amseriad priodol ar gyfer yr adolygiad. Yn yr un modd, os bydd rheolwr y cynllun yn penderfynu y dylid talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd, rhaid iddo adolygu o bryd i'w gilydd hawl y derbynnydd i daliad parhaus o'r dyfarniad. Byddai adolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal nes bod yr unigolyn yn cyrraedd oedran pensiwn gohiriedig ac mae gan reolwr y cynllun ddisgresiwn i benderfynu ar amseriad priodol yr adolygiad. Rhaid i'r rheolwr cynllun fod â pholisi ar gyfer adolygu yn ôl yr ysbeidiau y mae'n eu hystyried yn briodol,		pensiynau gohiriedig ar sail afiechyd cyhyd ag y bo'r derbynnydd yn iau na'r oedran pensiwn gohiriedig. Bydd dyfarn daliadau am anafiadau yn cael eu hadolygu yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan yr ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol (YMCA) yn eu tystysgrif. Dylid cynnal ac adolygu polisi ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion am ba mor aml y cynhelir yr adolygiadau
Rheoliad 69 (3): Canlyniadau adolygu	Yn dilyn adolygiad o bensiwn afiechyd haen is o dan Reoliad 68, os yw'r rheolwr cynllun yn penderfynu bod y derbynnydd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau sy'n briodol i'r rôl yr ymddeolodd y person ohoni ar sail afiechyd, rhaid i'r cyflogwr ystyried a ddylai gynnig eu hailgyflogi ai peidio.	Derby n	Pan fydd aelod yn derbyn pensiwn salwch haen is ac yn gallu cyflawni'r dyletswyddau sy'n briodol i'r rôl y gwnaethant ymddeol ohoni, bydd yr Awdurdod yn ystyried cynnig eu hailgyflogi ar sail yr amgylchiadau unigol.
Rheoliad 70: Cychwyn pensiynau. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y bydd y taliadau'n dechrau.	Yn unol â Rheoliad 70(1) a (2), pan nad yw aelod actif wedi hawlio taliad o'r pensiwn ymddeol cyn y dyddiad y mae'n ymddeol, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu ar y dyddiad y bydd y taliad yn dechrau a bydd yn hysbysu'r aelod yn unol â hynny. Yn unol â Rheoliad 70(8), os bydd aelod yn gofyn am ohirio taliad pensiwn gohiriedig y tu hwnt i'r oedran pensiwn gohiriedig (Rheoliad 70(5)(a)), neu'n gofyn am daliad cynnar gyda gostyngiad talu'n gynnar cyn yr oedran pensiwn gohiriedig (Rheoliad 70(5)(b)), rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu ar y dyddiad talu ar ôl i'r hawliad am daliad gael ei wneud.	Derby n Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 72(3)(b) a (4): Dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i atal cydsyniad os nad yw'r rheolwr cynllun wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod.	Caiff y rheolwr cynllun atal cydsyniad i ddyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd nad yw'n briod, yn bartner sifil nac yn bartner sy'n cyd-fyw ag aelod actif neu ohiriedig. (Gellir atal cydsyniad os nad yw'r rheolwr cynllun wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod actif).	Derby n	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried tystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 73: Gwneud dewisiad i ddyrannu. Prawf fod gan yr aelod ddisgwyliad oes normal.	Rhaid i'r rheolwr cynllun fod yn fodlon bod gan aelod sy'n gwneud dewisiad i ddyrannu, ddisgwyliad oes normal ar adeg y cais. Rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu sut y dylid barnu hyn, e.e. yn ôl barn Meddyg Teulu'r aelod neu'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol, neu yn ôl barn YMCA.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun
Rheoliad 75 (1) a (2): Addasu budd a ddyrannwyd. Disgresiwn i addasu budd a ddyrannwyd os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed.	Os bydd aelod sydd wedi gwneud dewisiad i ddyrannu yn marw ar ôl cyrraedd 75 mlwydd oed, ac nad yw swm y pensiwn dyranedig sy'n daladwy i'r buddiolwr yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion o dan adran 167 Deddf Cyllid 2004 (rheolau budd-dal marwolaeth pensiwn), gellir addasu'r swm mewn modd sydd i'w benderfynu gan y rheolwr cynllun.	Derby n	Pan nad yw pensiwn dyranedig yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion, bydd yr Awdurdod yn addasu'r swm yn unol â hynny.
Rheoliad 76: Ystyr "partner sy'n goroesi": Disgresiwn i hepgor cyfnod cymhwyso ar gyfer pensiwn partner sy'n goroesi yn achos partner sy'n cyd-fyw.	Gellir ystyried partner sy'n cyd-fyw yn "bartner sy'n goroesi" ac o bosibl yn gymwys i gael pensiwn ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol, ac un ohonynt yw bod yn rhaid iddynt fod wedi bod mewn "perthynas hirdymor" – cyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf – ar y dyddiad y mae angen ystyried eu hawl. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i ganiatáu i'r person fod yn gymwys os yw'r cyfnod yn llai na dwy flynedd.	Derby n	Os yw'r Partner sy'n Goroesi wedi bod mewn perthynas hirdymor am gyfnod parhaus o lai na dwy flynedd, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried bod y person hwnnw'n gymwys oni bai mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliad 85: Ystyr "plentyn cymwys". Disgresiwn o ran amseriad yr adolygiad os yw cymhwysra yn seiliedig ar anabledd parhaol	Os bydd pensiwn plentyn yn cael ei dalu oherwydd dibyniaeth y plentyn ar yr aelod ar sail anabledd parhaol ac, mewn adolygiad, yr ystyrir nad yw'r derbynnydd bellach yn anabl yn barhaol, bydd y pensiwn yn peidio â bod yn daladwy (oni bai y byddai gan y plentyn hawl i'r pensiwn o dan unrhyw delerau cymhwysra eraill).	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheoliad 95: Y person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy iddo. Disgresiwn y rheolwr Cynllun i ddewis derbynwyr.	Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn absoliwt i dalu unrhyw gyfandaliad o fudd marwolaeth i, neu er budd, enwebai'r aelod, eu cynrychiolydd personol neu unrhyw berson y mae'n ymddangos eu bod yn berthynas neu'n ddibynnydd yr aelod.	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn unrhyw gyfandaliad o fudd marwolaeth lle nad yw'r mater yn ymddangos yn un syml.
Rheoliad 100 (2): Talu pensiwn mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed. Disgresiwn sy'n ymwneud â thalu pensiwn plentyn.	Os yw pensiwn plentyn cymwys yn daladwy mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu i bwy y dylid ei dalu a bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynghylch sut y dylid defnyddio'r taliad er budd y plentyn cymwys.	Derby n	Wrth dalu Budd Marwolaeth i blentyn cymwys o dan 18 oed, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol er mwyn penderfynu pwy ddylai gael y taliad a sut y dylai'r taliad gael ei ddefnyddio.
Rheoliad 101(2) a (93) Pensiynau partner sy'n goroesi a phensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn i atal dros dro ac adennill.	Mae gan reolwr cynllun yr hawl i beidio â thalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn plentyn cymwys ac adennill unrhyw daliad a wneir mewn perthynas â phensiwn lle mae'n ymddangos i'r rheolwr cynllun bod y derbynnydd wedi gwneud datganiad anwir, neu wedi celu yn fwriadol ffaith faterol mewn cysylltiad â'r dyfarniad. (Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu ordaliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall pan fo'r rheolwr cynllun o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny).	Derby n	Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r gorau i dalu pensiwn partner sy'n goroesi a/neu bensiwn plentyn cymwys ac yn adennill unrhyw daliad a wnaed mewn perthynas â phensiwn os yw'n ymddangos bod datganiad anwir wedi'i wneud neu pan fydd ffaith faterol wedi'i chelu yn fwriadol.
Rheoliad 102: Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys: Disgresiwn ar gyfer addasiadau diweddarach.	Os telir pensiwn plant i bersonau penodol ar y sail eu bod yn blant cymwys ac nad oedd unrhyw blant cymwys eraill, a'i bod yn ymddangos yn ddiweddarach nad oedd unrhyw un o'r plant hynny yn gymwys, neu fod plentyn arall yn gymwys ond heb dderbyn taliad, neu fod plentyn a aned ar ôl marwolaeth yr aelod yn blentyn cymwys, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu swm y pensiwn, yn ôl yr angen, o ystyried y ffeithiau fel y maent yn ymddangos wedi hynny. Gellir gwneud yr addasiadau yn ôl-weithredol.	Derby n	Pan fo plentyn yn gymwys/anghymwys i gael pensiwn plentyn, bydd yr Awdurdod yn addasu'r pensiynau yn unol â hynny. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

Rheoliad 104(1)(a) a (2): Addasu buddion i gydymffurfio â Deddf Cyllid 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 mlwydd oed.	Os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed ac na fyddai unrhyw ran o bensiwn y caiff person yr hawl i'w gael yn dilyn y farwolaeth yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion at ddibenion adran 167 Deddf Cyllid 2004 (y rheolau buddion marwolaeth pensiwn), mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn i addasu'r budd sy'n daladwy i'r person fel y bo'n gymwys o dan yr adran honno o'r Ddeddf.	Derbyn	Gall yr Awdurdod addasu'r buddion sy'n daladwy i unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer pensiwn cynllun dibynyddion o dan Ddeddf Cyllid 2004. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliadau 110(5) a (7)(h): Cyfraniadau aelodau. Disgresiwn i bennu amgylchiadau lle bydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru at ddibenion penderfynu ar gyfraniadau'r aelodau.	Bydd y rheolwr cynllun yn penderfynu ar gyfradd berthnasol y cyfraniadau sy'n daladwy gan aelod o'r cynllun drwy gyfeirio at y "tablau bandio" tâl pensiynadwy yn Rheoliad 110 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a gofynion y Rheoliad hwnnw. Mae hyn yn ddarostyngedig i Reoliadau 111 i 113 (cyfraniadau yn ystod absenoldebau). Wrth nodi'r gyfradd gyfraniadau briodol, bydd y gostyngiad mewn tâl o dan rai amgylchiadau fel y'u rhestrir yn Rheoliad 110 yn cael ei ddiystyru. Yn ogystal, caiff y rheolwr cynllun, fel y caniateir gan Reoliad 110(7)(h) bennu'r amgylchiadau mewn achos penodol pan fydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn asesu cyfraniadau pan fo newid i dâl pensiynadwy ac yn adolygu cyfraddau cyfraniadau yn unol â hynny. Mae'r broses asesu hon yn broses awtomatig trwy'r system Cyflogres sy'n cael ei defnyddio gan y Cyflogwr ac fe'i cynhelir bob tro y bydd cylchred y gyflogres yn cael ei gwblhau. Wrth nodi'r gyfradd gyfraniadau briodol, dylid diystyru gostyngiad mewn tâl o dan rai amgylchiadau fel y'u rhestrir yn Rheoliad 110.
Rheoliad 111(2), (3) a (4): Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod dalu cyfraniad y cyflogwr yn ychwanegol at gyfraniad y cyflogai.	Os yw aelod actif yn absennol oherwydd anghydfod undebol neu i ffwrdd o'r gwaith yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig, gall yr aelod ddewis talu cyfraniadau ar sail y tâl pensiynadwy tybiedig y trinnir yr aelod hwnnw fel pe bai'n ei gael. Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, os yw'r aelod yn dewis gwneud hynny, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod hefyd dalu cyfraniad y cyflogwr mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw o absenoldeb. Os yw aelod actif yn absennol o gyflogaeth gynllun oherwydd salwch neu anaf ac yn gymwys i dderbyn tâl pensiynadwy, bydd yn talu cyfraniadau ar y tâl a gaiff yn ystod yr absenoldeb gan gynnwys tâl statudol a bydd y	Derbyn Gwrthod	Heb ei gynnwys o'r blaen Ar gyfer cyfnodau o absenoldeb di-dâl awdurdodedig neu gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i anghydfod diwydiannol ni fydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, rhaid i'r Cyflogai dalu'r rhain, yn ogystal â thalu Cyfraniadau'r Cyflogai. Rhaid talu POB cyfraniad er mwyn i'r Gwasanaeth gyfrif tuag at ymddeoliad. Am gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch neu anaf, bydd y Rheolwr Cynllun yn talu Cyfraniadau'r Cyflogwr, os yw'r aelod yn dymuno prynu'r Gwasanaeth hwn yn ôl.

	rheolwr cynllun yn talu cyfraniad cyfatebol y cyflogwr. Os yw'r aelod actif yn absennol o gyflogaeth gynllun oherwydd salwch neu anaf ac nad oes hawl ganddo i gael tâl (gan gynnwys tâl statudol), caiff yr aelod hwnnw ddewis talu cyfraniadau ar sail y tâl yr oedd ganddo hawl i'w gael cyn i'r tâl gael ei atal. Os yw'r aelod yn dewis gwneud hynny, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod hefyd dalu cyfraniad y cyflogwr mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw o absenoldeb.		Mewn achosion o absenoldebau sy'n ymwneud â Phlant neu'n Wasanaeth yn y Lluoedd Wrth Gefn, RHAID i'r Cyflogwr dalu ei gyfraniadau os yw'r aelod yn dymuno prynu'r cyfnodau absenoldeb hyn yn ôl.
Rheoliad 114(1), (2) a (3): Didynnu a thalu cyfraniadau. Disgresiwn i ddod i gytundeb gyda'r aelod ar y dull o dalu cyfraniadau'r cyflogai.	Caiff y cyflogwr cynllun ddidynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus allan o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus, oni chytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng y rheolwr cynllun a'r aelod. Gellir didynnu cyfraniadau sy'n ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn allan o unrhyw daliad a wnaed o dan Ran 5 Deddf y Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951. Caniateir talu cyfraniadau y mae'n ofynnol i'r aelod eu talu, neu y mae wedi gwneud dewisiad i'w talu o dan reoliadau 111 a 113 fel cyfandaliad neu drwy ddiidyniadau o randaliadau o dâl pensiynadwy, fel y cytunir rhwng yr aelod a'r rheolwr cynllun.	Derbyn Derbyn Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gellir didynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus o dan Reoliad 114 o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus, oni chytunwyd ar ddull arall o dalu rhwng yr Awdurdod a'r aelod. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gellir didynnu cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus mewn perthynas ag absenoldeb o'r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth wrth gefn allan o unrhyw daliad a wnaed o dan Ran 5 Deddf y Lluoedd Arfog Wrth Gefn ac Atodol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y gall cyfraniadau y mae'n ofynnol i'r aelod eu talu, neu y mae wedi dewis eu talu, gael eu talu fel cyfandaliad neu drwy ddiidyniad o randaliadau o dâl pensiynadwy fel y cytunir rhwng yr aelod a'r Awdurdod ar sail pob achos unigol.
Rheoliad 135(4): Datganiad o hawlogaeth gwerth trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn cyfnod y dyddiad gwarant.	Rhaid i'r rheolwr cynllun bennu mewn datganiad o hawlogaeth "ddyddiad gwarant" y caiff y cyfwerth ariannol neu'r gwerth trosglwyddiad clwb ei gyfrifo; rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn y tri mis sy'n dechrau ar ddyddiad cais yr aelod am y datganiad o hawlogaeth ac o fewn deg diwrnod sy'n dod i ben ar y dyddiad y rhoddir y datganiad i'r aelod. Mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn, os yw'n credu bod hynny'n rhesymol, i ymestyn y dyddiad hwn i chwe mis o ddyddiad cais yr aelod os, am resymau y tu hwnt i reolaeth	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn dyddiad cyfrifo'r gwerth trosglwyddo oni bai na ellir cael yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis, neu pan fydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Ni fydd dyddiad yr estyniad yn cael ei ymestyn y tu hwnt i chwe mis o gais yr aelod.

	y rheolwr cynllun, na ellir cael yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo'r gwerth trosglwyddo cyn diwedd y cyfnod o dri mis.		
Rheoliad 141(3): Cais am dderbyn taliad trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud cais.	Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol ar ôl deuddeg mis ers ymuno oni bai: (i) bod aelod o'r cynllun wedi gwneud cais i ymchwiliadau ddechrau o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, neu (ii) os oes lle i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod am yr angen i ofyn am ymchwiliad i'r posibilrwydd o drosglwyddo hawlogaeth pensiwn blaenorol o fewn y terfyn amser o ddeuddeg mis, a bod y ffeiliau AD a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cyfnod hirach cyn belled nad oes rheswm neu obaith hysbys y bydd y cyflogai yn cael mynediad at ei hawlogaeth pensiwn o fewn y 12 mis nesaf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau i drosglwyddo cynllun pensiwn galwedigaethol.	Gwrt hod	Mae terfyn amser o flwyddyn ar ôl dod yn aelod actif lle gall person wneud cais am daliad trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol. Mae disgresiwn gan y rheolwr cynllun i ymestyn y cyfnod hwn. Dim ond mewn achosion o gamweinyddu y bydd estyniad yn cael ei ystyried.
Rheoliadau 142 a 144: Datganiad trosglwyddo a datganiad o werth trosglwyddiad clwb. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod ofyn i reolwr cynllun pensiwn arall ddarparu datganiad o werth trosglwyddiad.	Caiff y rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol bod aelod actif yn gofyn i reolwr cynllun pensiwn blaenorol ddarparu datganiad o swm y pensiwn a drosglwyddwyd y byddai gan yr aelod hawl i'w gyfrif pe bai'r trosglwyddiad yn digwydd.	Derby n	Defnyddio'r disgresiwn hwn; bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rheoliad 152: Rôl YMCA mewn penderfyniadau gan y rheolwr cynllun.	Os oes angen mynd i'r afael â mater meddygol, bydd y rheolwr cynllun yn ceisio, ac yn rhoi sylw i, farn ysgrifenedig Ymarferydd Meddygol Cymwysedig Annibynnol ("YMCA") a <u>ddewiswyd ganddynt</u> .	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 155 (2): Hysbysiad o apêl (Bwrdd y Canolwyr Meddygol).	Os yw aelod yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y rheolwr cynllun a bod eu cwyn yn ymwneud â'r farn feddygol oedd yn sail i'r penderfyniad, gall wneud apêl i Fwrdd y Canolwyr Meddygol. Rhaid rhoi hysbysiad o apêl,	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen

	sy'n nodi enw a chyfeiriad yr apelydd a sail yr apêl i'r rheolwr cynllun o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r aelod gael y dogfennau a ddarparwyd o dan Reoliad 154. Os na roddir hysbysiad o apêl o fewn y terfyn amser hwn, mae gan y rheolwr cynllun ddisgresiwn o dan Reoliad 155(2) i estyn y terfyn amser am ba bynnag gyfnod y maen nhw'n ei ystyried yn briodol, heb fod yn hwy na chwe mis o'r dyddiad y darparwyd y dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r penderfyniad yn unol â Rheoliad 154.		
Rheoliad 157(6) i (9): Y weithdrefn pan wneir apêl. Disgresiwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Penodi person(au) i fod yn bresennol i gynrychioli'r rheolwr cynllun yn y cyfweiliad.	Os eir ymlaen i wneud apêl, bydd y rheolwr cynllun yn dilyn y gofynion sy'n ymwneud â'r cyfweiliad ar yr amser ac yn y lleoliad a bennir gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol. Gallant gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y maen nhw'n ei ystyried sy'n briodol ac ymateb i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr apelydd yn unol â'r Rheoliad ac o fewn yr amserlenni penodol. Gallant hefyd benderfynu pwy ddylai gynrychioli'r rheolwr cynllun yn y cyfweiliad.	Derby n	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 161(2), (3) a (3)(b): Ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd: treuliau pob un o'r partïon. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu ffioedd a lwfansau o dan rai amgylchiadau.	Gall y rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu swm sy'n cyfateb i gyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Reoliad 160(1) pan fo'r – • Bwrdd yn penderfynu apêl o blaid y rheolwr cynllun ac yn datgan bod yr apêl, ym marn y Bwrdd, yn wacsaw, yn flinderus, neu'n amlwg yn ddi-sail, neu pan fo'r • apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl, yn gofyn am ei ddiddymu neu ohirio, gan roi llai na 22 diwrnod gwaith o rybudd cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfweiliad, neu pan fo • gweithredoedd ac anweithiau'r apelydd yn peri i'r Bwrdd ddiddymu, gohirio neu oedi rhywfodd arall y cyfweiliad llai na 22 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfweiliad hwnnw.	Derby n Derby n Derby n	Ym mhob un o'r amgylchiadau a nodir, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu'r uchafswm a ganiateir heb fod yn fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy.

Rheoliad 163: Apelau ar faterion eraill: gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn trwy Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau. Disgresiwn i benderfynu ar weithdrefnau mewnol i ddatrys anghydfodau yn lleol.	Pan fo aelod yn anghytuno â phenderfyniad y rheolwr cynllun ar ddyfarniad ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn ymdrin â'r anghytundeb o dan Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheolwr cynllun o fewn 28 diwrnod ar ôl cael y penderfyniad. Yn unol ag adran 50 Deddf Pensiynau 1995 (gofyniad bod trefniadau i ddatrys anghydfod) a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau, Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2008, rhaid i'r rheolwr cynllun fod â Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau ar waith, ond gallant benderfynu pwy ddylai fod yn gwneud penderfyniadau yng Ngham Un a Cham Dau. Byddai'r trefniadau hyn hefyd yn berthnasol i faterion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn uniongyrchol gan Reoliad 163, ond y gellir apelio yn eu herbyn o dan Adran 50 Deddf Pensiynau 1995.	Derbyn	Pan fo aelod yn anghytuno â dyfarniad yr Awdurdod o dan Reoliad 151 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater o natur feddygol, gall yr aelod ddilyn y Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau i geisio datrysiaid. Yn unol â'r Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau, PSC sy'n delio â Cham 1 a'r Awdurdod Tân (neu gorff/person dirprwyedig) sy'n delio â Cham 2
Rheoliad 165: Adennill gordaliad o fuddion. Disgresiwn i benderfynu ar ddulliau adennill gordaliad a ddigwyddodd o ganlyniad i ostyngiad canran mewn enillion mewn gorchymyn ailbrisio.	Os pennir gostyngiad canrannol mewn enillion, ar gyfer blwyddyn ariannol, mewn gorchymyn a wneir o dan adran 9 Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("ailbrisio"), rhaid i'r rheolwr cynllun adennill unrhyw ordaliad o fuddion a ddigwyddodd o ganlyniad i gymhwyso'r addasiad mynegai ymddeol ar gyfer y flwyddyn honno. Gall rheolwr y cynllun benderfynu a ddylid adennill y gordaliad drwy leihau swm pob rhandaliad o bensiwn hyd nes bod swm y gordaliad wedi ei adennill, neu a ddylid hepgor talu unrhyw gynnydd yn swm unrhyw bensiwn sy'n ddyladwy hyd nes bo swm y gordaliad wedi ei adennill.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheoliad 167 (3): Cymudo pensiynau bach. Disgresiwn i gymudo.	Os nad yw hawlogaeth pensiwn aelod o'r cynllun, neu hawlogaeth pensiwn buddiolwr aelod yn fwy na'r uchafswm cymudo pensiynau bach, gall y rheolwr cynllun dalu'r hawlogaeth fel cyfandaliad. Fodd bynnag, byddai hyn yn amodol ar gydsyniad y derbynnydd a rhaid iddynt	Derbyn	Lle bo'n briodol bydd yr Awdurdod yn caniatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

	gydymffurfio â'r darpariaethau cymudo sy'n gymwys yn yr amgylchiadau.		
Rheoliad 168: Disgresiwn ynghylch taliadau ar gyfer personau sy'n analluog i reoli eu busnes eu hunain	Os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun fod hawl gan berson, ac eithrio plentyn cymwys, i gael taliad o fuddion o dan y cynllun hwn, ond bod y person hwnnw, oherwydd anallu meddyliol neu rywfodd arall, yn analluog i reoli ei fusnes ei hunan, caiff y rheolwr cynllun, yn unol â Rheoliad 168 o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 ac o ystyried amgylchiadau'r achos a'r canllawiau meddygol lle bo hynny'n briodol, ystyried – (a) talu'r buddion, neu unrhyw ran ohonynt i berson sy'n gofalu am y person sydd â hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall y penderfynir arno gan y rheolwr cynllun, ar ôl cael ymrwymiad ysgrifenedig gan y person hwnnw bod y buddion a delir i'w defnyddio er budd y person â hawlogaeth yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr cynllun, neu (b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan y rheolwr cynllun, er budd y person sydd â hawlogaeth, neu unrhyw fuddiolwyr y person sydd â hawlogaeth.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn derbyn unrhyw swm sy'n daladwy i berson nad yw'n gallu rheoli ei fusnes ei hun.
Rheoliad 169: Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd taliad yn ddyledus iddo o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 cyn i'r taliad gael ei wneud, os yw'r cyfanswm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ymadawedig o dan y Cynllun (ar hyn o bryd) yn llai na £5,000, caiff y rheolwr cynllun wneud taliad i'r person(au) y mae'n eu hystyried yn briodol heb fod angen cyflwyno Grant Profiant neu Lythyrau Gweinyddu.	Derbyn	Wrth dalu buddion marwolaeth i gynrychiolwyr personol, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.
Rheoliad 171(1), (2), (3), (4) a (5): Disgresiwn o ran fforffedu: troseddau a gyflawnir gan	Caiff y rheolwr cynllun ystyried defnyddio ei bwerau i gadw pensiwn yn ôl, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro pan fo person sydd â hawl i bensiwn o dan y cynllun wedi'i gollfarnu am drosedd berthnasol fel y'i diffinnir	Derbyn	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

aelodau, partneriaid sy'n goroesi neu blant cymwys.	yn Rheoliad 171, os yw'r rheolwr cynllun yn penderfynu ei bod yn briodol yn unol ag amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheoliad 171 ac yn ddarostyngedig i ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol pan fo angen. Pan fo pensiwn yn cael ei gadw yn ôl, rhaid i'r rheolwr cynllun ar unrhyw adeg, ac i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod a ystyria'n briodol, ddefnyddio'r pensiwn er budd unrhyw ddibynnydd yr aelod neu ei adfer i'r aelod.	Derby n	
Rheoliad 172(1) i (5): Fforffedu pensiwn mewn achos o lofruddiaeth a disgresiwn o ran fforffedu yn achos dynladdiad.	Os collfernir partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys o lofruddiaeth aelod o'r cynllun, rhaid i'r rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan o unrhyw bensiwn a fyddai, fel arall, yn daladwy iddynt mewn cysylltiad â'r aelod. Fodd bynnag, os collfernir partner sy'n goroesi neu blentyn cymwys o ddynladdiad yr aelod, neu unrhyw drosedd arall, ar wahân i lofruddiaeth, yr oedd lladd yr aelod yn anghyfreithlon yn elfen ynddi, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio'r disgresiwn a ganiateir o dan Rheoliad 172 i atal yr holl bensiwn sydd dros ben unrhyw Isafswm Pensiwn Gwarantedig y mae hawl gan y person i'w gael o dan adran 17 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. (Os diddymir y golffarn, rhaid i'r rheolwr cynllun adfer y pensiwn a thalu'r ôl-ddyled priodol hyd nes ac oni bai bod unrhyw golffarn diweddarach fel yr amlinellir yn y paragraff uchod.)	Derby n	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rheoliadau 174 a 176: Fforffedu: disgresiwn i atal buddion mewn perthynas â rhwymedigaethau ariannol perthnasol a cholledion ariannol perthnasol.	Os oes gan aelod rwymedigaeth ariannol berthnasol neu os yw wedi achosi colled ariannol berthnasol, caiff y rheolwr cynllun, i'r cyfryw raddau ac am y cyfryw gyfnod yr ystyria'n briodol, gadw'n ôl buddion sy'n daladwy i'r person hwnnw o dan y cynllun hwn. Mae'n rhaid bod y rhwymedigaeth ariannol yn rhwymedigaeth ariannol a achoswyd i reolwr y cynllun ar ôl i'r person ddod yn aelod actif ac yn tarddu o, neu'n gysylltiedig â gwasanaeth yn y gyflogaeth gynllun y mae'r person yn aelod o'r cynllun hwn mewn cysylltiad â hi, a rhaid ei fod wedi tarddu o weithred neu anwaith troseddol, esgeulus neu dwyllodrus gan y person. Caiff	Derby n	Wrth fforffedu pensiwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.

	"rhwymedigaeth ariannol berthnasol" a "cholled ariannol berthnasol" eu diffinio yn y Rheoliad. Mae cyfyngiadau penodol, e.e. dim ond swm sy'n fwy nag isafswm pensiwn gwarantedig y person y gellir ei gadw yn ôl, ac ni chaiff y rheolwr cynllun weithredu ac eithrio pan nad oes anghytundeb ynglŷn â'r swm neu, pan fo gorchymyn llys neu ddyfarniad gan gymrodeddwr. Yn unol â Rheoliad 176, rhaid i'r rheolwr cynllun roi i'r aelod dystysgrif sy'n dangos y swm a gedwir yn ôl a'r effaith ar fuddion o dan y cynllun.		
Rheoliadau 175 a 176: Disgresiwn i wrthgyfrif rhwymedigaeth ariannol berthnasol yn erbyn hawlogaeth aelod i gael buddion o dan y cynllun.	Yn unol â Rheoliad 175 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, os oes gan aelod o'r cynllun rwymedigaeth ariannol berthnasol – fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau – i'r rheolwr cynllun, caiff y rheolwr cynllun, yn unol ag amgylchiadau'r achos, wrthgyfrif y rhwymedigaeth ariannol yn erbyn hawlogaeth yr aelod i gael buddion o dan y cynllun. Mae cyfyngiadau penodol, e.e. dim ond swm sy'n fwy nag isafswm pensiwn gwarantedig y person y gellir ei gadw yn ôl, mae credydau trosglwyddo penodol wedi'u diogelu, ac ni chaiff y rheolwr cynllun weithredu ac eithrio pan nad oes anghytundeb ynglŷn â'r swm neu, pan fo gorchymyn llys neu ddyfarniad gan gymrodeddwr. Yn unol â Rheoliad 176, rhaid i'r rheolwr cynllun roi i'r aelod dystysgrif sy'n dangos y swm a gedwir yn ôl a'r effaith ar fuddion y person.	Derbyn	Pan fydd yr Awdurdod yn bwriadu atal buddion, dilynnir y weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau. Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.
Rheoliad 184: Disgresiwn i ofyn am dystiolaeth o hawlogaeth.	Caiff rheolwr cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn o dan Rheoliad 184 i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sy'n cael pensiwn, neu a allai fod â hawlogaeth i gael pensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun, yn darparu pa bynnag dystiolaeth ategol y gofynnir amdani'n rhesymol gan y rheolwr cynllun er mwyn cadarnhau enw'r person a	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

	chadarnhau hawl y person hwnnw, sy'n parhau neu yn y dyfodol i gael taliad o unrhyw swm o dan y cynllun. Os bydd person yn methu â chydymffurfio â gofynion y rheolwr cynllun yn hyn o beth, caiff y rheolwr cynllun gadw'n ôl y cyfan neu ran o unrhyw swm y mae, fel arall, yn ystyried ei fod yn daladwy o dan y cynllun.	Derby n	
(Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 4) Pensiwn ychwanegol Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol	Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na therfyn penodol. Caiff y rheolwr cynllun ddiddymu dewisiad gan yr aelod i wneud taliadau cyfnodol os yw'n ymddangos i'r rheolwr cynllun yr eir dros ben y terfyn (drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod). [Atodlen 1 Rhan 1, paragraff 4]	Derby n	Mae'n debygol y bydd yr Awdurdod yn canslo'r dewisiad pan fydd aelod wedi dewis gwneud taliadau cyfnodol sy'n debygol o fynd y tu hwnt i'r terfyn. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
(Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 7) Dewisiad Aelodau i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol	Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, caiff y rheolwr cynllun osod isafswm y mae'n rhaid ei dalu.	Derby n	Pan fo Aelod o'r Cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, mae'r Awdurdod wedi gosod isafswm o £25 y mis y mae'n rhaid ei dalu.
ATODLEN 1: Rhan 2, Paragraffau 6 i 11. Taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Disgresiwn i osod isafswm, i gytuno ar ddull talu, ac i ymestyn y terfyn amser ar gyfer talu.	Bydd y rheolwr cynllun yn gweinyddu cais gan aelod i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Gall rheolwr y cynllun ddefnyddio ei ddisgresiwn i osod isafswm swm yn unol ag amgylchiadau'r achos. Fel arfer, caiff y taliadau cyfnodol fod yn daladwy drwy ddidynnu o dâl pensiynadwy yr aelod gan ei gyflogwr yn ystod y cyfnod taliadau cyfnodol ond os nad yw'r aelod yn dymuno talu trwy'r dull hwn, caiff y rheolwr cynllun gytuno ar ddull arall o dalu. Ar ôl cyfnod o dâl pensiynadwy tybiedig neu gyfnod o dâl gostyngedig, os bydd aelod yn dymuno awdurdodi'r rheolwr cynllun i ddidynnu'r taliadau cyfanredol y byddid wedi eu gwneud allan o dâl yr aelod yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i'r taliad gael ei wneud o fewn 6 mis i ddiwedd y cyfnod o dâl tybiedig neu dâl gostyngedig. Fodd bynnag, gall y rheolwr cynllun ddefnyddio eu disgresiwn i ymestyn y cyfnod os ydynt o'r farn y byddai hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau.	Derby n Gwrt hod Derby n	Pan fo Aelod o'r Cynllun yn dymuno gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol, mae'r Awdurdod wedi gosod isafswm o £25 y mae'n rhaid ei dalu. Ni fydd rheolwr y cynllun yn caniatáu i aelod wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol ac eithrio drwy ddidyniad o dâl pensiynadwy. Oherwydd goblygiadau treth a chofnodi cyfraniadau yn briodol dros gyfnod o amser Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn y cyfnod o chwe mis ar gyfer taliadau yn ystod cyfnodau o dâl pensiynadwy tybiedig oni bai mewn amgylchiadau eithriadol.

ATODLEN 2: Rhan 1, Paragraff 3(3). Disgresiwn i bennu dyddiad diogelwch taprog mewn rhai achosion.	Yn unol â Pharagraff 3(3), caiff y rheolwr cynllun ddefnyddio eu disgresiwn i bennu dyddiad cau diogelwch taprog ar gyfer aelod diogelwch taprog o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2006 y mae Paragraffau 9(5) neu 21 yn gymwys iddynt (aelodau sy'n dychwelyd i wasanaeth pensïynadwy) yn unol ag amgylchiadau'r achos.	Gwrt hod	Hysbyswyd Aelodau'r Cynllun o'u dyddiadau diogelwch taprog pan gyflwynwyd cynllun 2015. Mae pennu dyddiadau taprog wedi'i nodi mewn rheoliadau a bydd y disgresiwn hwn yn berthnasol dim ond hyd nes y bydd y rhwymedi'n cael ei roi ar waith ar ôl penderfyniad y Rhingyll ynglŷn ag ymestyn y terfyn amser.
--	--	----------------------------	--

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) 2015

Darparu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	
Rheoliadau 4A, 4B, 4C a 4D: Sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.	✓			
Rheoliad 5: Dirprwyo	✓			
Rheoliad 16(2)(b): Optio allan o'r cynllun. Disgresiwn i bennu'r ddyddiad y daw gwasanaeth pensiynadwy i ben.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 17(1)(d): Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus fod yn bensiynadwy.	✓			

Rheoliad 19 (c): Disgresiwn i gyfrif absenoldeb fel aelodaeth actif o'r Cynllun yn amodol ar dalu cyfraniadau.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 28: Sefydlu cyfrifon pensiwn. Disgresiwn i'w cadw ar ffurf yr ystyrir yn briodol gan yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 37 Cau ac ailsefydlu cyfrif aelod actif. Disgresiwn i ddewis cyfrif priodol pan fo gan aelod fwy nag un cyfrif.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 49: Cau cyfrif aelod gohiriedig ar ôl bwlch mewn gwasanaeth pensiynadwy nad yw'n hwy na phum mlynedd. Disgresiwn i ddewis pa gyfrif sydd i'w gau pan fo gan yr aelod fwy nag un cyfrif.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 62: Ymddeoliad a ysgogir gan gyflogwr. Disgresiwn i ddyfarnu taliad pensiwn ymddeol ar unwaith heb ostyngiad.		✓		Wedi'i ddirprwyo i PST neu'r Awdurdod Tân yn achos Prif Swyddogion
Rheoliadau 63 a 64: Arfer yr opsiwn o ran-ymddeoliad. Disgresiwn o ran dyddiad cychwyn pensiwn rhan-ymddeoliad.			✓	Ar y cyd â'r Tîm AD
Rheoliad 68: Adolygu dyfarniad afiechyd neu daliad o bensiwn ymddeol yn gynnar. Disgresiwn i ddewis amseriad priodol ar gyfer adolygu.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 69: Canlyniadau adolygu		✓		
Rheoliad 70: Cychwyn pensiynau. Disgresiwn i bennu'r dyddiad y bydd y taliadau'n dechrau.			✓	Tîm Pensiynau
Rheoliad 72: Dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i atal cydsyniad os nad yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod y person a enwebwyd yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 73: Gwneud dewisiad i ddyrannu. Disgresiwn i wrthod cais i ddyrannu os nad yw'r rheolwr cynllun wedi'i fodloni bod gan yr aelod ddisgwyliad oes normal.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 75: Addasu budd a ddyrannwyd. Disgresiwn i addasu buddion a ddyrannwyd os bydd aelod yn marw ar ôl cyrraedd 75 oed.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 76: ystyr "partner sy'n goroesi": Disgresiwn i hepgor cyfnod cymhwyso ar gyfer pensiwn partner sy'n goroesi yn achos partner sy'n cyd-fyw.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 85: Ystyr "plentyn cymwys". Disgresiwn o ran penderfynu "anabledd parhaol" ar gyfer pensiwn plentyn ac ar gyfer amseriad yr adolygiad.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 95: Y person y mae cyfandaliad budd marwolaeth yn daladwy iddo. Disgresiwn yr ATA i ddewis derbynwyr.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 100: Talu pensiwn mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 oed. Disgresiwn sy'n ymwneud â thalu pensiwn plentyn.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 101: Pensiynau partner sy'n goroesi a phensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn i atal dros dro ac adennill.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 102: Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys. Disgresiwn ar gyfer addasiadau diweddarach.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 104: Addasu buddion i gydymffurfio â Deddf Cyllid 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 mlwydd oed.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun

Rheoliad 110: Cyfraniadau aelodau. Disgresiwn i bennu amgylchiadau lle bydd gostyngiad mewn tâl pensiynadwy yn cael ei ddiystyru at ddibenion penderfynu ar gyfraniadau'r aelodau.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 111: Cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod dalu cyfraniad y cyflogwr yn ychwanegol at gyfraniad y cyflogai os yw'n absennol o gyflogaeth oherwydd salwch neu anaf heb dâl.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 114: Didynnu a thalu cyfraniadau. Disgresiwn i ddod i gytundeb gyda'r aelod ar y dull o dalu cyfraniadau'r cyflogai.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheoliad 135: Datganiad o hawlogaeth gwerth trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn cyfnod y dyddiad gwarant.			✓	Person priodol Gweinyddwr pensiynau
Rheoliad 141: Cais am dderbyn taliad trosglwyddo. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud cais.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliadau 142 a 144: Datganiad trosglwyddo a datganiad o werth trosglwyddiad clwb. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i aelod ofyn i reolwr cynllun pensiwn arall ddarparu datganiad o werth trosglwyddiad.			✓	Person priodol Gweinyddwr pensiynau
Rheoliad 152: Rôl YMCA mewn penderfyniadau gan yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 155: Hysbysiad o apêl (Bwrdd y Canolwyr Meddygol).		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 157: Y weithdrefn pan wneir apêl. Disgresiwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Penodi person(au) i fod yn bresennol i gynrychioli'r Awdurdod Tân ac Achub yn y cyfweiliad.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheoliad 161: Ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd: treuliau pob un o'r partïon. Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu ffioedd a lwfansau o dan rai amgylchiadau.		✓		
Rheoliad 163: Apelau ar faterion eraill: gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn trwy Weithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau. Disgresiwn i benderfynu ar weithdrefnau mewnol i ddatrys anghydfodau yn lleol.		✓		
Rheoliad 165: Adennill gordaliad o fuddion. Disgresiwn i benderfynu ar ddulliau adennill gordaliad a ddigwyddodd o ganlyniad i ostyngiad canran mewn enillion mewn gorchymyn ailbrisio.			✓	Timau Pensiynau ar y cyd â gweinyddwyr
Rheoliad 167: Cymudo pensiynau bach. Disgresiwn i gymudo.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 168: Disgresiwn ynghylch taliadau ar gyfer personau sy'n analluog i reoli eu busnes eu hunain		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 169: Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun

Rheoliad 171: Disgresiwn o ran fforffedu: troseddau a gyflawnir gan aelodau, partneriaid sy'n goroesi neu blant cymwys.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 172: Fforffedu pensiwn mewn achos o lofruddiaeth a disgresiwn o ran fforffedu yn achos dynladdiad.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 174 a 176: Fforffedu. Disgresiwn i atal buddion mewn perthynas â rhwymedigaethau ariannol perthnasol a cholledion ariannol perthnasol.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 175 a 176: Disgresiwn i wrthgyfrif rhwymedigaeth ariannol berthnasol yn erbyn hawlogaeth aelod i gael buddion o dan y Cynllun.		✓		Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Rheoliad 184: Disgresiwn i ofyn am dystiolaeth o hawlogaeth.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol Rhan 1, Paragraff 4. Ni chaiff cyfanswm y pensiwn ychwanegol cronedig fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol o bensiwn ychwanegol			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol Rhan 1, Paragraff 7. Dewisiad Aelodau i wneud taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 1: Taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol. Rhan 2, Paragraffau 6 i 11. Taliadau cyfnodol ar gyfer pensiwn ychwanegol. Disgresiwn i osod isafswm, i gytuno ar ddull talu, ac i ymestyn y terfyn amser ar gyfer talu.			✓	Ar y cyd â gweinyddwyr y cynllun
Atodlen 2: Rhan 1, Paragraff 3(3). Disgresiwn i bennu dyddiad diogelwch taprog mewn rhai achosion.	✓			

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Rheoliad	Esboniad	Penderfyniad GC	Sylwadau
Rhan 2 Rheol 1(6) i (9) - Disgresiwn i dderbyn statws "partner enwebedig" pan fo aelod y cynllun a'u partner wedi bod mewn perthynas am lai na 2 flynedd.	Yn amodol ar fodloni'r gofynion enwebu eraill a nodir yn Rhan 2, Rheol 1 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn enwebiad partner gan aelod o'r cynllun os yw'r berthynas wedi parhau am gyfnod byrrach na dwy flynedd.	Derbyn	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rhan 3, Rheol 5: Pensiwn yn sgil ymddeoliad cynnar ar archiad yr aelod.	Os bydd aelod-ddiffoddwr tân, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, yn bodloni amod cymhwyster, y dyfernir pensiwn gohiriedig iddo, ac yn 55 oed neu'n hŷn ond cyn iddo gyrraedd yr oedran buddion arferol (65) yn gofyn am daliad cynnar drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Tân ac Achub, caiff yr Awdurdod wrthod y cais os bydd cyfradd y pensiwn, ar ôl y lleihad actiwaraid priodol, yn debyg o fod yn llai na'r pensiwn â lleiafswm gwarantedig a fyddai'n daladwy o oedran pensiwn y wladwriaeth ymlaen.	Derbyn	Gall yr Awdurdod wrthod cais gan ddiffoddwr tân am daliad cynnar o bensiwn gohiriedig lle mae hyn yn debygol o fod yn llai na'r isafswm pensiwn gwarantedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

Rhan 3, Rheol 6: Ymddeoliad cynnar ar archiad yr awdurdod.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, gan ystyried y dull darbodus, effeithiol ac effeithlon o reoli eu swyddogaethau a'r costau sy'n debyg o gael eu tynnu yn yr achos penodol, ddyfarnu y dylid ymddeol diffoddwr tân – ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig – sydd yn 55 oed o leiaf ond sydd o dan yr oedran ymddeol arferol (60), o gyflogaeth yr Awdurdod gyda phensiwn ar unwaith wedi'i gyfrifo ar yr un egwyddorion â phensiwn arferol o dan Ran 3, Rheol 1 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn caniatáu talu buddion yn gynnar at ddibenion effeithlonrwydd busnes nac yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraid, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar ôl ystyried yr achos busnes; rhaid i'r Prif Swyddog Tân gytuno, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu pensiwn yn gynnar i Ddiffoddwr Tân sy'n 55 oed neu hŷn lle mae'r ymddeoliad er budd rheolaeth y Gwasanaeth.
Rhan 3, Rheol 7B: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r aelod-ddiffoddwr tân.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu y gellir trin y buddion y cyfeirir atynt yn Rheol 7B (5) fel rhai pensiynadwy ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r diffoddwr tân. (Ond sylwch, yn unol â Rhan 11, Rheol 1(6), pan fo lwfans neu atodiad a dalwyd i ddiffoddwr tân yn cael ei drin fel tâl pensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n dâl pensiynadwy yn ôl Rhan 11, Rheol 1(a), bydd yn parhau i gael ei drin fel tâl pensiynadwy cyhyd â bod y diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb unrhyw doriad yn y taliad.)	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn trin taliadau DPP a Dyrchafiad Dros Dro fel Budd Pensiwn Ychwanegol pensiynadwy.

Rhan 3, Rheol 10: Disgresiwn i gymudo pensiwn bach am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm unrhyw bensiwn sy'n daladwy i aelod sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth, o dan Ran 3 ac, os yw'n berthnasol, Rhan 6, Rheol 1 (pensiwn â chredyd pensiwn), Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ynghyd ag unrhyw gynnydd o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion Rhan 1 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (y rheol ynghylch cyfandaliadau), caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, os ystyrir ei fod yn briodol, gymudo'r pensiwn(pensiynau) am gyfandaliad yn unol â chanllawiau Actiwari'r Cynllun.	Derbyn	Lle bo'n briodol bydd yr Awdurdod yn caniatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 3, (Rheol 11, paragraffau 2(b) a 3) Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân ddyrannu cyfran o'u pensiwn i ddibynnydd heblaw priod, partner sifil, neu bartner enwebedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod cydsynio i ddyrannu cyfran o bensiwn i berson ac eithrio priod, partner sifil neu bartner enwebedig yr aelod os na chaiff ei fodloni bod y person yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod-ddiffoddwr tân.	Derbyn	Pan fo cyfran o bensiwn wedi'i ddyrannu i ddibynnydd nad yw'n briod, yn bartner sifil neu'n bartner sy'n cyd-fyw â'r aelod, bydd yr Awdurdod yn atal y taliad os na ellir ei fodloni bod y person a enwebir yn dibynnu'n sylweddol ar yr aelod. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol a bydd angen manylion llawn am yr amgylchiadau.
Rhan 3, (Rheol 11, paragraff 6(a)) Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu.	Os yw aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn dymuno dyrannu cyfran o'u pensiwn er budd buddiolwr, rhaid i'r aelod hwnnw fodloni'r Awdurdod Tân ac Achub bod ganddynt ddisgwyliad oes arferol ar adeg gwneud y cais. Nid oes manylion ynglŷn â sut y dylid gwneud hyn, e.e. barn feddygol gan Feddyg Teulu'r diffoddwyr tân, neu'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol neu YMCA, ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu ar eu polisi o ran y dull o brofi.	Derbyn	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn (yn unol â Rhan 3, Rheol 11, Paragraffau 2(b) a 3), mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at yr YMCA; bydd yr Aelod yn talu'r costau.

Rhan 3, (Rheol 12) Aelodau â debyd pensiwn	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a bydd yn cymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/ diddymu, Rhan 3, Rheol 12 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, a'r canllawiau a'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun. Gall yr Awdurdod bennu'r tâl a godir am y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn; Bydd yr Awdurdod yn pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.
Rhan 4, Rheol 1, paragraff 3: Disgresiwn i wrthod rhoi pensiwn goroeswr, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo priod, partner sifil, neu bartner enwebedig yr ymadawedig wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i wrthod rhoi pensiwn priod, partner sifil neu bartner enwebedig yn gyfan gwbl ac yn barhaol os yw'r person hwnnw wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 4 (Rheol 5): Disgresiwn, yn amodol ar gais priod, partner sifil neu bartner enwebedig sy'n goroesi aelod-ddiffoddwr tân, i gymudo eu pensiwn am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod, partner sifil neu bartner enwebedig sy'n goroesi o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (cyfandaliadau budd marwolaeth) ac os bydd y derbynnydd yn gofyn am hynny, caiff yr Awdurdod Tân ac Achub gymudo'r pensiwn cyfan am gyfandaliad yn unol â ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun ac sydd mewn grym ar yr adeg pan fydd y cymudo yn digwydd.	Derbyn	Gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

Rhan 4, Rheol 7, paragraff 5: Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dros, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 4, Rheol 12: Disgresiwn, gyda chydsyniad y rhiant sydd ar ôl, ei warcheidwad neu'r plentyn (os yw'r plentyn dros 18 oed) i gymudo pensiwn plentyn am gyfandaliad mân-gymudo.	Pan na fo swm lwfans plentyn sy'n daladwy o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 a (a) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a (b) bod y rhiant sy'n goroesi neu warcheidwad y plentyn neu – os nad oes un gan y plentyn – y plentyn (os yw dros 18 oed) yn cydsynio, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gymudo'r pensiwn am gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun ar yr adeg pan ddaw'r pensiwn yn daladwy am y tro cyntaf.	Derbyn	Gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 5: Dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth (Rheolau 1 a 2): Disgresiwn o ran derbynnydd grant marwolaeth a grant marwolaeth ar ôl ymddeol.	Yn sgil marwolaeth person tra bo'n gwasanaethu fel aelod-ddiffoddwr tân neu aelod sy'n bensiynwr, gall yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth a aseswyd yn unol â Rhan 5, Rheolau 1 a 2 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i'r person neu'r personau hynny y gwêl yr Awdurdod yn dda, yn unol â Rhan 5, Rheol 1, paragraff 10.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy sy'n derbyn grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y gwêl yn dda. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod benderfynu pwy ddylai gael Grant Marwolaeth.

Rhan 5, Rheol 1, paragraff 12: Disgresiwn i dalu rhan o unrhyw grant marwolaeth nad yw wedi ei thalu'n llawn, i berson y mae ei gollfarn am lofruddiaeth neu ddynladdiad yr ymadawedig wedi'i ddiddymu.	Pan fo collfarn person am lofruddiaeth neu ddynladdiad yn cael ei diddymu ar apêl, caiff yr Awdurdod, os nad yw'r grant marwolaeth wedi'i dalu'n llawn bryd hynny a chan ystyried amgylchiadau'r achos, dalu rhan ohono i'r person y mae ei gollfarn wedi'i diddymu.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 6: Rhannu pensiwn yn sgil ysgaru (Rheol 2) Disgresiwn, gyda chytundeb yr aelod â chredyd pensiwn, i gymudo am gyfandaliad mân-gymudo y cyfan o bensiwn â chredyd pensiwn.	O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 3(2)(b) Rheoliadau Rhannu Pensiwn (Budd Credyd Pensiwn) 2000, pan na fo swm pensiwn â chredyd pensiwn sy'n daladwy o dan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion paragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 a a) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a b) bod yr aelod â chredyd pensiwn yn cydsynio, caiff yr Awdurdod gymudo'r pensiwn am gyfandaliad wedi'i gyfrifo yn unol â'r ffactorau a ddarperir gan Actiwari'r Cynllun sy'n gyfredol ar adeg y cymudo.	Derbyn	Yn sgil ysgariad, gall yr Awdurdod ganiatáu cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad yn unol â'r terfynau ariannol a bennwyd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu cymudo pensiwn bach am gyfandaliad yn sgil ysgariad. Diffinnir pensiwn bach ym Mharagraff 20 atodlen 29 Deddf Cyllid 2004 fel cyfandaliad nad yw'n fwy nag 1% o'r lwfans oes safonol ar y dyddiad y telir y cyfandaliad.

Rhan 6, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn i dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol mewn perthynas ag aelod â chredyd pensiwn i'r person neu'r personau hynny a wêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda.	Pan fo aelod â chredyd pensiwn yn marw o fewn pum mlynedd i ddyddiad dechrau talu'r pensiwn a chyn pen-blwydd yr aelod yn 75 oed a bod gwahaniaeth rhwng • y swm sy'n bum gwaith swm y pensiwn, wedi'i gyfrifo yn ôl y gyfradd flynyddol a oedd yn effeithiol ar y diwrnod y dechreuwyd talu'r pensiwn, a • y rhandaliadau pensiwn sydd wedi'u talu gall yr Awdurdod Tân ac Achub dalu grant marwolaeth ar ôl ymddeol sy'n swm y gwahaniaeth hwnnw i'r person neu'r personau hynny a wêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy sy'n derbyn grant marwolaeth ar ôl ymddeol fel y gwêl yn dda. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried pwy ddylai dderbyn Grant Marwolaeth ar ôl ymddeol.
Rhan 8 (Rheol 4, paragraff 4): Dyfarnu cwestiynau ac apelau 70. Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar gyngor meddygol.	Pan fo person sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yn seiliedig ar gyngor meddygol o dan Ran 8, Rheol 4 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn methu â chyflwyno'r hysbysiad apêl ac unrhyw ddogfennau ategol o fewn y 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno apêl o'r fath, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod.	Derbyn	Os na chaiff apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a bennir a bod yr Awdurdod yn credu nad yw hynny oherwydd diffyg ar ran yr unigolyn ei hun, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelio hyd at fis ar y mwyaf o ddyddiad terfyn amser gwreiddiol yr apêl. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried eithriadau i'r terfyn amser o 28 diwrnod i Ddiffoddwr Tân gyflwyno apêl.

Rhan 8, Rheol 5: Gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn drwy gyfrwng Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau a sefydlwyd gan Awdurdod Tân ac Achub yn unol â gofynion adran 50 Deddf Pensiynau 1995, pan fo'r anghytundeb yn ymwneud â phenderfyniad Awdurdod o dan Ran 8, Rheol 2 ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater meddygol ei natur.	Mae atal pensiwn yn sgil ailddechrau gwasanaeth yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, bydd Awdurdod fel arfer yn ystyried telerau Rhan 9, Rheol 3, egwyddorion lleihau a nodir yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 10/2009, a chanllawiau Trysorlys EF, h.y. ni ddylai'r pensiwn sy'n ddyledus o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghyd â'r tâl o'r gyflogaeth newydd fod yn fwy na'r tâl pensiynadwy oedd yn sail i gyfrifiad pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (gan ystyried cynnydd mewn costau byw). I'r graddau y mae'n gwneud hynny, bydd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn cael ei leihau am gyfnod y gyflogaeth.	Derbyn	Pan fydd diffoddwr tân wedi ymddeol ac wedi cael ei ail-gyflogi fel diffoddwr tân, bydd eu pensiwn yn cael ei leihau. Byddai'r Gwasanaeth bob amser yn caniatáu i'r unigolyn godi mater o'r natur hon drwy Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau'r Gwasanaeth.
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 1: Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan oedran pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi bod yn cael pensiwn afiechyd am lai na 10 mlynedd wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'r rôl y bu i'r person ymddeol ohoni ar sail afiechyd, ac i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod adolygu dyfarniadau afiechyd yn orfodol, gall yr Awdurdod Tân ac Achub bennu amseriad adolygiadau o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd presennol Mae angen i'r polisi ysgrifenedig gynnwys proses ymddeol ar sail afiechyd ac amserlen ar gyfer adolygu

Rhan 9, Rheol 1, paragraff 2 a Rheol 2: Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan yr oedran buddion arferol (65) ac sy'n cael pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail anabledd parhaol, wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'w rôl flaenorol, ac i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod adolygu talu pensiwn gohiriedig yn gynnar ar sail afiechyd yn orfodol, gall yr Awdurdod Tân ac Achub bennu amseriad adolygiadau o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd presennol Mae angen i'r polisi ysgrifenedig gynnwys proses ymddeol ar sail afiechyd ac amserlen ar gyfer adolygu
Rhan 9, Rheol 3: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn Rhan 3 (dyfarndaliadau personol) ar gyfer unrhyw gyfnod y caiff y person, y mae ganddo hawlogaeth i'w gael, ei gyflogi eto fel diffoddwr tân, neu mewn unrhyw swyddogaeth arall, gan unrhyw Awdurdod Tân ac Achub.	Mae atal pensiwn yn sgil ailddechrau gwasanaeth yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, bydd Awdurdod fel arfer yn ystyried telerau Rhan 9, Rheol 3, egwyddorion lleihau a nodir yng Nghylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 10/2009, a chanllawiau Trysorlys EF, h.y. ni ddylai'r pensiwn sy'n ddyledus o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ynghyd â'r tâl o'r gyflogaeth newydd fod yn fwy na'r tâl pensiynadwy oedd yn sail i gyfrifiad pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (gan ystyried cynnydd mewn costau byw). I'r graddau y mae'n gwneud hynny, bydd pensiwn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 yn cael ei leihau am gyfnod y gyflogaeth. Rhaid ystyried hefyd rwymedigaeth yr Awdurdod o dan Ran 13, Rheol 2, paragraff 11 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod swm sy'n cyfateb i'r cyfan neu ran o bensiwn <u>nad</u> yw wedi'i leihau neu ei atal yn cael ei dalu i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r taliad pensiwn yn cael ei wneud.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried atal pensiwn diffoddwr tân os yw'r person yn cael ei ail-gyflogi fel Diffoddwr Tân rheolaidd. Byddai hyn yn gofyn am asesiad atal.

Rhan 9, Rheol 4: Disgresiwn i atal talu pensiwn gohiriedig yn gynnar o dan Rhan 3, Rheol 3, paragraff 4 yn sgil ei ddiswyddo fel diffoddwr tân o gyflogaeth Awdurdod Tân ac Achub	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i atal talu pensiwn gohiriedig cyn cyrraedd 65 oed, neu cyn cyrraedd 60 oed yn achos aelod arbennig, i ddiffoddwr tân sy'n cael ei ddiswyddo o gyflogaeth yr Awdurdod os teimlir bod hyn yn briodol mewn achos penodol. Nid yw'r rheswm dros "ddiswyddo" yn cael ei grybwyll. Efallai y bydd yr Awdurdod yn dymuno ystyried gwahaniaethu rhwng diswyddo oherwydd tramgwydd a diswyddo oherwydd gallu meddygol (lle na fyddai'r person yn gymwys i gael dyfarndal afiechyd).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae Rhan 3, Rheol 3, paragraff 4 yn cynnwys y pŵer i dalu pensiwn gohiriedig yn gynnar pan fo unigolyn wedi'i anablu'n barhaol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried peidio â gwneud taliad o'r fath pan fydd Diffoddwr Tân yn cael ei ddiswyddo. Bydd hyn yn cael ei ystyried ar sail pob achos unigol.
Rhan 9, (Rheol 5, paragraffau 1 i 3) Disgresiwn i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo person wedi'i gollfarnu am dramgwyddau penodol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac yn barhaol neu dros dro, pan fo pensïynwr wedi'i gollfarnu o dramgwydd fel y gwêl yr Awdurdod yn dda o dan amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rhan 9, Rheol 5 ac yn amodol ar ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen.	Derbyn	Pan fo unigolyn yn cael ei gollfarnu am droseddau a gwmpesir yn Rhan 9 Rheol 5, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 9, Rheol 5, paragraff 4: Disgresiwn, ar unrhyw bryd ac i'r graddau y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda, ad-dalu pensiwn sydd wedi'i atal o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3, neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensïynwr.	Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn atal pensiwn o dan Ran 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, yn amodol ar amgylchiadau'r achos, gallant ystyried ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensïynwr neu ei ad-dalu i'r pensïynwr.	Derbyn	Gall yr Awdurdod adfer pensiwn a gafodd ei atal o dan Ran 9, Rheol 5 neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensïynwr. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Dyma'r disgresiwn i ad-dalu pensiwn a gafodd ei atal yn unol â'r ddirprwyaeth uchod.

Rhan 11 (Rheol 3, paragraff 2) Disgresiwn i ddiwynnu cyfraniadau pensiwn o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus (neu drwy unrhyw ddull talu arall y gall yr awdurdod a'r aelod gytuno arno).	Mae cyfraniadau fel arfer yn cael eu didynnu o randaliadau cyflog ond mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gasglu'r cyfraniadau sy'n ddyledus trwy ddulliau eraill pe bai angen.	Derbyn	Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.
Rhan 11, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau pensiwn mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu estyniad i'r terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu di-dâl na fyddai fel arall yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy neu wasanaeth pensiynadwy arbennig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 4, paragraffau 6 a 7: Disgresiwn i ddiwynnu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl o'r grant marwolaeth sy'n daladwy o dan Rhan 5 os bydd aelod neu aelod cysylltiedig yn marw heb roi hysbysiad ei f/bod yn dymuno talu'r cyfraniadau cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud y dewisiad.	Pe byddai aelod-ddiffoddwr tân wedi cael yr opsiwn i dalu cyfraniadau er mwyn cyfrif y cyfnod o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu fel gwasanaeth pensiynadwy neu wasanaeth pensiynadwy arbennig ond yn marw cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad a heb fod wedi rhoi'r hysbysiad, bernir bod y person hwnnw wedi rhoi'r hysbysiad a rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub roi i gynrychiolwyr personol y diffoddwr tân ddatganiad o swm y cyfraniadau sy'n ddyledus, a chaiff gasglu'r cyfraniadau o'r grant marwolaeth sy'n daladwy o dan Ran 5 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried a ddylid trin cyfnod o absenoldeb di-dâl fel gwasanaeth pensiynadwy pan fo aelod yn marw heb roi hysbysiad o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad, ei fod yn dymuno talu cyfraniadau o'r fath.
Rhan 11, Rheol 5, paragraff 5: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân rheolaidd rhan-amser dalu cyfraniadau ar gyfradd ran-amser i brynu gwasanaeth ychwanegol.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân rheolaidd rhan amser yn dymuno prynu gwasanaeth ychwanegol trwy gyfraniadau cyfnodol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu iddynt dalu'r cyfraniadau ychwanegol ar gyfradd ran-amser.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 11, Rheol 5, paragraff 6: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol brynu gwasanaeth ychwanegol drwy gyfraniadau cyfnodol.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol yn dymuno prynu gwasanaeth ychwanegol trwy gyfraniadau cyfnodol mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu hyn, ac os felly mae'r cyfraniadau'n seiliedig ar dâl cyfeirio'r diffoddwr tân.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 5A: Prynu gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyfyngedig.	<i>Disgresiwn ar gyfer amcangyfrif gwasanaeth ar gyfer ymarferiad diffoddwyr tân ar alwad arbennig yn unig.</i>	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 11, Rheol 8: Disgresiwn i gytuno, ar archiad aelod-ddiffoddwr tân, i roi'r gorau i dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth ar yr amod bod hyn ar sail amgylchiadau ariannol yr aelod yn unig, a bod yr aelod wedi cytuno gyda'r penderfyniad o ran ailgychwyn talu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth ar ôl cyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.	Os teimlir ei fod yn briodol mewn achos penodol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gytuno i roi'r gorau i ddiynnu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth o gyflog aelod-ddiffoddwr tân, pan fydd y diffoddwr tân yn gwneud cais ar sail ei amgylchiadau ariannol yn unig.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Pwrpas y disgresiwn hwn yw caniatáu i Diffoddwr Tân roi'r gorau i wneud cyfraniadau ychwanegol.

Rhan 11, Rheol 9, paragraff 4(c): Talu cyfraniadau mewn perthynas â chyfnodau o wasanaeth neu absenoldeb di-dâl, a disgresiwn i ymestyn y terfyn amser i'r diffoddwr tân dalu.	Os bydd gan aelod-ddiffoddwr tân sydd wedi dewis talu cyfraniadau ychwanegol i “brynu” gwasanaeth ychwanegol gyfnod o wasanaeth di-dâl neu absenoldeb di-dâl (h.y. absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb arall heb dâl) ac o ganlyniad nid oes tâl y gellir tynnu'r cyfraniadau ychwanegol ohono, gall wneud cais i'r Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r cyfraniadau. Rhaid gwneud y cais heb fod yn hwyrach nag un mis ar ôl diwedd y cyfnod o absenoldeb di-dâl. Caniateir i gyfraniadau ychwanegol gael eu talu'n uniongyrchol i'r Awdurdod yn ystod cyfnod o absenoldeb di-dâl neu o fewn chwe mis i'r diffoddwr tân ddychwelyd i'w ddyletswydd ar ôl yr absenoldeb. Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 2, Rheol 3, paragraff 6: Disgresiwn i godi tâl ar aelod am gais am drydydd datganiad neu ddatganiad ar ôl hynny o hawlogaeth i daliad gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis.	Pan fo aelod, mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis olynol, wedi gwneud dau gais am ddatganiad o hawlogaeth, a heb eu tynnu'n ôl, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i beidio â rhoi trydydd datganiad neu ddatganiad dilynol yn ystod y cyfnod hwnnw o ddeuddeg mis oni bai bod yr ymgeisydd yn talu unrhyw ffi y mae'n rhesymol i'r Awdurdod ofyn amdano.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 3, (Rheol 9(1)(c)(ii)) Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser lle gall aelod, ac eithrio aelod-ddiffoddwr tân arbennig, wneud cais am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn cais gan aelod o'r cynllun am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol pan fydd y cais yn cael ei wneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r aelod ddod yn gymwys i fod yn aelod-ddiffoddwr tân am y tro cyntaf.	Gwrthod	Ni fydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser o flwyddyn oni bai mewn amgylchiadau esgusodol, e.e. nid yw'r Gweinyddwr Pensiynau wedi gweithredu ar gais yr aelod. Y cynllun wedi'i gau
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 10, paragraff 1, yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 4 a Rhan 10, Rheol 2, paragraffau 2 a 3: Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn taliad gwerth trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 pan fo aelod o'r Cynllun wedi gwneud cais o dan Ran 10 Rheol 8.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd."	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 6: Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i addasu swm y gwerth trosglwyddo y mae'n ei dderbyn o dan y rheolau trosglwyddo "cam-werthu" i sicrhau nad oes dyblygu o ran y gwasanaeth pensiynadwy a gredydwyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(a): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd Awdurdod Tân ac Achub.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Nid oes angen i'r Awdurdod Tân dalu'r swm nes ei fod yn fodlon ar gymhwystra dyfarniad.
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(b): Disgresiwn i dalu dyfarndal yn ôl ysbeidiau rhesymol eraill os nad yw'n ymarferol i'w talu'n fisol.	Yn unol â Rhan 14, Rheol 3, paragraff 1, pan fo'r Awdurdod Tân ac Achub o'r farn, oherwydd swm y dyfarndal, y byddai ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau yn anymarferol, caiff gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r swm hwnnw drwy wneud taliadau bob hyn a hyn yn ôl yr ysbeidiau rhesymol a wêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 5: Disgresiwn i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad os na chafodd Awdurdod Tân ac Achub ei hysbysu am farwolaeth pensiynwr (o bosibl drwy wrth-gyfrifiad yn erbyn unrhyw ddyfarndal arall sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 mewn perthynas â'r ymadawedig).	Pan nad yw Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei hysbysu am farwolaeth pensiynwr ac, o ganlyniad, bod y pensiwn wedi parhau i gael ei dalu, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad fel y gwêl yn dda a chaiff ei adennill drwy wrth-gyfrifiad yn erbyn unrhyw ddyfarndal arall sy'n daladwy o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r ymadawedig.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn adennill unrhyw ordaliadau a wnaed yn dilyn marwolaeth pensiynwr yn unol â chanllawiau 'Rheoli Arian Cyhoeddus' Trysorlys EF.

Rhan 14, Rheol 3, paragraff 6: Ad-dalu cyfraniadau cyfanredol.	Pan fo gan berson hawlogaeth o dan Ran 3, Rheol 8 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i gael ad-daliad o'i gyfraniadau pensiwn cyfanredol, nid yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhwym i wneud taliad hyd nes y bydd blwyddyn o ddyddiad ymddeol y person wedi dirwyn i ben os na fydd y person yn gwneud cais am daliad ynghynt. Efallai y byddant am wneud datganiad polisi ynglŷn â'r opsiwn hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd unrhyw swm sy'n daladwy i berson ifanc dan oed a chyfarwyddiadau i'w ddefnyddio er budd y person ifanc.	Datganiad Gweinyddol: Pan fo budd-daliadau plant yn daladwy, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn y taliad hwnnw a gall roi cyfarwyddiadau iddynt i ddefnyddio'r taliadau er budd y plentyn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu symiau sy'n ddyledus i blentyn dan oed i berson priodol.
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain	Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Tân ac Achub fod person sydd â hawlogaeth i gael taliad dyfarndal, oherwydd anhwylder meddwl neu fel arall, yn analluog i reoli ei faterion, caiff yr Awdurdod a) dalu'r budd-daliad neu unrhyw ran ohono i berson sydd â gofal dros y person a chanddo hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall a ddyfernir ganddynt, neu b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan yr Awdurdod er budd y person sydd â hawlogaeth, neu buddiolwyr y person hwnnw.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu dyfarndal i berson priodol os bernir nad yw'r derbynnydd yn gallu rheoli ei faterion ei hun.
Rhan 14, Rheol 6, paragraff 1: Disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd swm yn ddyledus iddo, mewn perthynas â dyfarndal, nad oedd yn fwy na £5,000 (ar hyn o bryd), caiff yr Awdurdod Tân ac Achub dalu'r swm sy'n ddyledus i'r person neu'r personau fel y gwêl yr Awdurdod yn dda heb fod angen cyflwyno Grant Profiant neu unrhyw brawf arall o hawlogaeth.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymdrin â dyfarndaliadau o lai na £5,000 ac yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch pwy ddylai gael y swm hwn.

Rhan 14, (Rheol 6, paragraffau 4 i 6) Disgresiwn i atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarndal i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Os bydd colled, o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran diffoddwr tân mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub, caiff yr awdurdod ystyried defnyddio'r pwerau a gynhwysir yn Rhan 14, Rheol 6 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru/Lloegr) 2006/2007 i wrthod talu y cyfan neu ran o unrhyw symiau a ddaw'n ddyledus i'r diffoddwr tân hwnnw oddi wrth yr Awdurdod mewn perthynas â dyfarndal. Rhaid i'r cyfanswm y gwrthodir ei dalu beidio â bod yn fwy na swm y golled nac unrhyw ran o swm sy'n ddyledus ac nad yw'n briodoladwy i wasanaeth fel cyflogai Awdurdod Tân ac Achub. Os bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â swm y golled, ni chaniateir gwrthod talu unrhyw beth onid oes modd bellach adennill y golled oddi wrth y person sydd â hawlogaeth i gael y dyfarndal o dan orchymyn llys cymwys. Rhaid i'r awdurdod ddarparu i'r person sydd â hawlogaeth i gael y dyfarndal dystysgrif sy'n dangos y swm sy'n cael ei atal.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfarndal i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd y Gwasanaeth.
Rhan 15, Rheol 3: Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd, neu a all fod â hawl i bensiwn neu gyfandaliad o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007, ddarparu tystiolaeth ategol i Awdurdod Tân ac Achub o'i hunaniaeth a'i hawl parhaus o dan y Cynllun; a disgresiwn i atal taliad neu ran o daliad pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn.	Caiff Awdurdod Tân ac Achub ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cael pensiwn neu y mae'n bosibl bod ganddo hawlogaeth i gael pensiwn neu gyfandaliad o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ddarparu tystiolaeth ategol o bryd i'w gilydd i gadarnhau pwy yw'r person hwnnw a'i hawlogaeth i gael taliad o dan y Cynllun. Pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, yn unol ag amgylchiadau'r achos, caiff yr Awdurdod arfer ei ddisgresiwn i atal y taliad cyfan.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rhan 15, Rheol 4: Penderfynu ar ddyddiad dyroddi datganiadau buddion blynyddol a dyddiad perthnasol ar gyfer enghraifft o'r pensiwn.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu ar amseriad dyroddi datganiadau buddion blynyddol. Caiff yr Awdurdod hefyd benderfynu ar y dyddiad perthnasol ar gyfer yr enghraifft o'r pensiwn (ac eithrio yn achos aelodau â chredyd pensiwn).	Gwrthod	Nid oes disgresiwn bellach – rhaid dyroddi datganiadau buddion blynyddol i aelodau erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae hyn bellach yn ofyniad statudol.
Atodiad, 2, (paragraff 1(2)) Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod, lle mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis. (paragraff 1(2))	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod lle mae'n rhaid i berson gyflwyno apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis o ddyddiad dyroddi'r dogfennau o dan Ran 8, Rheol 4, paragraff 4 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Os na chaiff apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a bennir a bod yr Awdurdod yn credu nad yw hynny oherwydd diffyg ar ran yr unigolyn ei hun, bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelio hyd at fis ar y mwyaf o ddyddiad terfyn amser gwreiddiol yr apêl.
Atodiad 2, paragraff 6(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfweliad y Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu pwy ddylai gynrychioli'r Awdurdod mewn cyfweliad Bwrdd Apêl Feddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodiad 2, paragraff 7(1): Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD

Atodiad 2, paragraff 10(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn "wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail", i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub swm a wêl yr Awdurdod yn dda, nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1). (paragraff 10(2))	Pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan bod yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd, yn ei farn ef, yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, caiff yr Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd fel y'u pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. (Gweler y gofyniad i hysbysu person o'r posibilrwydd hwn o dan Atodiad 2, paragraff 4(5)(i)).	Derbyn	Pan fydd Bwrdd Apeliadau Meddygol yn penderfynu bod apêl unigolyn yn 'wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail' bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu unrhyw swm y mae'n ei ystyried yn addas yn amodol ar gapio yn unol â'r rheoliadau.
Atodiad 2, (paragraff 10(3)) Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub y cyfryw swm ag y gwêl yr Awdurdod yn dda, heb fod yn fwy na chyfanswm ffioedd a lwfansau'r Bwrdd Apeliadau Meddygol sy'n daladwy i'r Bwrdd gan yr Awdurdod o dan Atodiad 2, paragraff 9(1), dan amgylchiadau pan fo'r apelydd yn rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol, ei fod yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennir ar gyfer yr archwiliad meddygol llai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir, neu os yw gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall lai na 22 diwrnod cyn y dyddiad a bennir. (paragraff 10(3))	Pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweiliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall y dyddiad a bennwyd, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodiad 2, paragraff 9(1) Gorchymyn Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.	Derbyn	Pan fydd apelydd yn tynnu ei apêl yn ôl lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweiliad neu archwiliad meddygol, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu unrhyw swm y mae'n ei ystyried yn addas yn amodol ar gapio yn unol â'r rheoliadau.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (Cymru) 2007

Darpariaeth Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	
Rhan 2, Rheol 1(6) i (9): Disgresiwn i dderbyn statws partner enwebedig pan fo diffoddwr tân a'i bartner mewn perthynas am lai na 2 flynedd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 5: Pensiwn yn sgil ymddeoliad cynnar ar archiad yr aelod.			✓	
Rhan 3, Rheol 6: Ymddeoliad cynnar ar archiad yr awdurdod.	✓			Wedi'i ddirprwyo i'r PST
Rhan 3, Rheol 7B: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rhan 3, Rheol 10: Disgresiwn i gymudo pensiwn bach am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 11, paragraffau 2(b) a 3: Disgresiwn i ganiatáu dyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd heblaw priod, partner sifil neu bartner enwebedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 3, Rheol 11, paragraff 6(a): Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu.		✓		
Rhan 3, Rheol 12: Dyfarndal i aelodau â debyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 1, paragraff 3: Disgresiwn i wrthod rhoi pensiwn goroeswr yn gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo'r goroeswr wedi'i gollfarnu o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 5: Disgresiwn i gymudo pensiwn goroeswr am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 7, paragraff 5: Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 4, Rheol 12: Disgresiwn i gymudo pensiwn plentyn am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 5, Rheolau 1 a 2: Grant marwolaeth a grant marwolaeth ar ôl ymddeol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 5, Rheol 1, paragraff 12: Disgresiwn i dalu rhan o unrhyw grant marwolaeth nad yw wedi ei thalu'n llawn, i berson y mae ei gollfarn am lofruddiaeth neu ddynladdiad yr ymadawedig wedi'i ddiddymu.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 6, Rheol 2: Disgresiwn i gymudo'r cyfan o fuddion credyd pensiwn am gyfandaliad mân-gymudo.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 6, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd grant marwolaeth ar ôl ymddeol aelod â chredyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 8, Rheol 4, paragraff 4: Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar gyngor meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rhan 8, Rheol 5: Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau	✓			
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 1: Adolygu pensiwn afiechyd.			✓	Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd
Rhan 9, Rheol 1, paragraff 2, a Rheol 2: Adolygiad o'r pensiwn gohiriedig a dalwyd yn gynnar ar sail afiechyd.			✓	Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd

Rhan 9, Rheol 3: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn ar ôl ailddechrau gwasanaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub.		✓		
Rhan 9, Rheol 4: Disgresiwn i wrthod talu pensiwn gohiredig yn gynnar yn sgil diswyddo o gyflogaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 5, paragraffau 1 i 3: Disgresiwn i atal pensiwn yn sgil collfarnu person am dramgwyddau penodol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 5, paragraff 4: Disgresiwn i ad-dalu pensiwn sydd wedi'i atal neu ei dalu er budd dibynnydd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 9, Rheol 6: Disgresiwn i benderfynu faint o'r dyfarniad fydd yn cael ei fforffedu pan fydd person wedi ei gollfarnu am drosedd o dan a34(6) Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 10, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n ddyledus am gyfnod o absenoldeb di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 3, paragraff 2: Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau o randaliadau tâl pensynadwy.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 4, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 4, paragraffau 6 a 7: Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl o'r grant marwolaeth os bydd aelod yn marw heb roi hysbysiad ei f/bod yn dymuno talu cyn diwedd y terfyn amser ar gyfer gwneud y dewisiad.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 5, paragraffau 5 a 6: Disgresiwn i ganiatáu i ddiffoddwr tân rheolaidd rhan-amser, neu ddiffoddwr tân ar alwad neu ddiffoddwr tân gwirfoddol sy'n aelodau brynu gwasanaeth ychwanegol pro rata.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 5A: Prynu gwasanaeth yn ystod cyfnod cyfyngedig (diffoddwyr tân ar alwad arbennig).			✓	Matthews 2 ymarferiad yn unig
Rhan 11, Rheol 8: Disgresiwn i gytuno i gais gan ddiffoddwr tân i roi'r gorau i dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu gwasanaeth pan fo taliad yn achosi caledi ariannol; penderfyniad ynglŷn ag amseriad ailgychwyn gwneud didyniadau.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 11, Rheol 9, paragraff 4(c): Talu cyfraniadau mewn perthynas â chyfnodau o wasanaeth neu absenoldeb di-dâl, a disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas â gwyliau di-dâl.			✓	Timau Pensiynau a Chyflogres
Rhan 12, Pennod 2, Rheol 3, paragraff 6: Disgresiwn i godi tâl ar aelod am drydydd datganiad neu ddatganiad ar ôl hynny o hawlogaeth i daliad gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 9(1)(c)(ii): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser lle gall aelod wneud cais am daliad gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn analwedigaethol.			✓	Mewn achosion o gamweinyddu yn unig
Rhan 12, Pennod 3, Rheol 10, paragraff 1, a paragraffau 3 a 4: Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr

Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 3: Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 12, Pennod 5, Rheol 14, paragraff 6: Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am wasanaeth blaenorol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(a): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 2(b): Disgresiwn i dalu dyfardal yn ôl ysbeidiau rhesymol yn hytrach nag yn fisol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 5: Disgresiwn i adennill y cyfan neu ran o ordaliad yn dilyn marwolaeth pensiynwr os na chafodd yr Awdurdod Tân ac Achub ei hysbysu.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 3, paragraff 6: Ad-dalu cyfraniadau cyfanredol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd y swm sy'n daladwy i berson ifanc dan oed a chyfarwyddiadau i'w ddefnyddio er budd y person ifanc.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 5, paragraff 2: Disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 6, paragraff 1: Disgresiwn o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 14, Rheol 6, paragraffau 4 i 6: Disgresiwn i atal symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â dyfardal i ddiffoddwr tân os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 15, Rheol 3: Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i berson sydd, neu a all fod â hawl i bensiwn neu gyfandaliad o dan y Cynllun Pensiwn, ddarparu tystiolaeth i'r Awdurdod Tân ac Achub o'i hunaniaeth a'i hawl parhaus o dan y Cynllun; disgresiwn i atal taliad pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwr
Rhan 15, Rheol 4: Penderfynu ar ddyddiad dyroddi datganiadau buddion blynyddol a dyddiad perthnasol ar gyfer enghraifft o'r pensiwn - Nid yw hyn bellach yn ddisgresiwn - rhaid dyroddi datganiadau buddion blynyddol i aelodau erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae hyn bellach yn ofyniad statudol.				Ddim yn berthnasol mwyach
Atodiad 2, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer apêl feddygol (i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis).		✓		Pennaeth AD/ Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 6(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfweliad y Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 7(1): Disgresiwn p'un ai i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol ai peidio.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y polisi
Atodiad 2, paragraff 10(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.		✓		

Atodiad 2, paragraff 10(3): Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd pan fo'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio dyddiad cyfweliad/archwiliad meddygol llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd, neu pan fo gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad hwnnw, llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd.		✓		
--	--	---	--	--

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992

Rheoliad	Esboniad	Penderfyniad GC	Sylwadau
Rheol B1(2)(b): Caniatâd i Brif Swyddog Tân a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, ymddeol cyn cyrraedd 55 oed	Os bydd Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub, a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, yn ymddeol cyn cyrraedd 55 oed, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i dalu buddion ymddeoliad ar unwaith o dan Reol B1 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.	Amherthnasol	GC heb ei gynnwys o'r blaen Ar adeg cymeradwyo'r ddogfen hon, roedd dyddiad penodi'r PST ar ôl 1.7.2013
Rheol B5C: Disgresiwn i benderfynu y dylai taliadau penodol, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, gael eu trin felly ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r aelod-ddiffoddwr tân	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu a ddylid trin unrhyw daliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus neu gynnydd mewn tâl am ddyrchafiad dros dro sy'n dod i rym ar, neu ar ôl, 1 Gorffennaf 2013 fel rhai pensiynadwy ar gyfer credyd Budd Pensiwn Ychwanegol i'r diffoddwr tân. (Yn unol â Rheol G1(9), pan fo lwfans neu atodiad a dalwyd i ddiffoddwr tân yn cael ei drin fel tâl pensiynadwy cyn 1 Gorffennaf 2013 ond nad yw'n dâl pensiynadwy yn ôl Rheol G1(1)(a), dylai barhau i gael ei drin fel tâl pensiynadwy cyhyd â bod y diffoddwr tân yn parhau i'w dderbyn heb unrhyw doriad yn y taliad.)	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Argymhellir ystyried pob lwfans neu atodiad ar sail pob achos unigol. - DPP – budd pensiwn ychwanegol pensiynadwy - Dyrchafiad dros dro – budd pensiwn ychwanegol pensiynadwy - Lwfansau pensiynadwy dros dro eraill – budd pensiwn ychwanegol

Rheol B7 (5a) Caniatâd i gael cymudo un chwarter o swm y pensiwn yn achos diffoddwr tân na fyddai fel arall, wrth ymddeol, yn cael cymudo cyfran o'r pensiwn hwnnw a fyddai'n rhoi cyfandaliad mwy na dwywaith a chwarter swm llawn y pensiwn	Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i gyflogwyr ganiatáu'r aelodau hynny o gynllun 1992 sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth ac o dan 55 oed i gymudo uchafswm o chwarter eu pensiwn am gyfandaliad ar eu hymddeoliad. O dan y ddarpariaeth newydd, byddai'r cyflogwr yn atebol am unrhyw gost ychwanegol a allai fod yn sylweddol pe bai'n arfer y disgresiwn hwn. Byddai angen paratoi achos busnes llawn yn dangos rheolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'i swyddogaethau gyda'r costau cysylltiedig.	Gwrthod	Ni fydd yr Awdurdod fel arfer yn cydsynio i geisiadau o'r fath.
Rheol B8: Disgresiwn i gymudo, am “gyfandaliad mân-gymudo”, pensiwn bach sy'n daladwy i bensiynwr ddiffoddwr tân.	Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried cyfnewid pensiwn bach am gyfandaliad ac mae'n cael ei reoli gan derfynau ariannol a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol B9 (2b) Dyrannu cyfran o bensiwn i ddibynnydd heblaw priod neu bartner sifil	Mae Rheol B9 yn caniatáu i aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i ddyrannu (ildio) rhan o'i bensiwn yn ystod ei oes, pan fydd yn dod yn gymwys i ymddeol, i ddarparu, ar ôl ei farwolaeth, bensiwn ar gyfer priod, partner sifil, neu ddibynnydd.	Derbyn	Cyn cydsynio â'r dyraniad, rhaid bodloni'r Awdurdod fod yr enwebai yn berson sy'n sylweddol ddibynnol ar yr aelod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried tystiolaeth ariannol dros gyfnod o ddwy flynedd.
Rheol B9(6) Gofyniad i gael barn ar ddisgwyliad oes arferol, a'i derbyn, at ddibenion dyrannu	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn (o dan Rheol B9), gall yr Awdurdod ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Mae Rheol B9 yn caniatáu i aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i ddyrannu (ildio) rhan o'i bensiwn yn ystod ei oes, pan fydd yn dod yn gymwys i ymddeol, i ddarparu, ar ôl ei farwolaeth, bensiwn ar gyfer priod, partner sifil, neu ddibynnydd. Mae rhan hon o gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn hen iawn erbyn hyn ac wedi'i disodli i raddau helaeth gan well darpariaeth yn y cynllun ar gyfer priod a phartneriaid sifil, neu ddibynnyddion. Mae Rheol B9(6) yn cynnwys gofyniad bod gan yr aelod ddisgwyliad oes arferol, ac mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried a yw hynny'n wir.	Derbyn	Pan fo Diffoddwr Tân yn dewis ildio rhan o'u pensiwn, mae'r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael archwiliad meddygol i sicrhau eu bod mewn iechyd da cyn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r unigolyn at yr YMCA ac efallai y bydd angen i'r aelod dalu unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir y Gwasanaeth.

Rheol B12 Aelodau â debyd pensiwn	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a chymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r Cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/diddymu, Rheol B12 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, a'r ffactorau a baratowyd gan Actiwari'r Cynllun. Mater i'r Awdurdod yw pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn; Bydd yr Awdurdod yn pennu tâl priodol ar gyfer y gwaith gweinyddol.
Rheol C8(6) - Disgresiwn i gynyddu lefel dyfarniad priod neu bartner sifil am y cyfryw gyfnod ag y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda lle'r oedd y diffoddwr tân a'r priod neu bartner sifil yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth a lle mae lefel arferol y budd-dal yn cael ei ostwng yn unol â hynny o dan reolau Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. Rheol C8(7) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 - Disgresiwn i ganiatáu talu arian rhodd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn amgylchiadau pan oedd buddiolwr ac aelod yn byw ar wahân ar adeg y farwolaeth.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu cynyddu'r dyfarniad a delir i briod neu bartner sifil sy'n goroesi neu ganiatáu i arian rhodd pensiwn gael ei dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo budd yn cael ei leihau o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 oherwydd bod y diffoddwr tân a'i briod neu bartner sifil yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth. Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu talu arian rhodd yn gyfan gwbl neu'n rhannol i briod neu bartner sifil sy'n goroesi os oedd y diffoddwr tân a'i briod, neu diffoddwr tân a'i bartner sifil, yn byw ar wahân ar ddyddiad y farwolaeth.	Derbyn Derbyn	Defnyddio'r disgresiwn hwn ar sail pob achos unigol. Defnyddio'r disgresiwn hwn ar sail pob achos unigol.

Rheol D5(1) a (2): Dod â thaliad pensiwn plentyn i ben.	Dyfarnu budd-dal i blentyn 17 oed neu hŷn sydd â bylchau yn ei addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn caniatáu talu pensiwn plentyn pan fo'r plentyn mewn addysg amser llawn. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu ystyried adfer y pensiwn pan fo bylchau wedi bod mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol. Yn unol â Rheol D5(1) a (2) o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi'r gorau i dalu pensiwn plentyn pan fydd y plentyn yn peidio â bod yn gymwys ar ôl cyrraedd oedran penodol, neu'n rhoi'r gorau i addysg amser llawn a dechrau cyflogaeth am dâl, neu ar ôl priodi neu ffurfio partneriaeth sifil.	Derbyn	Adfer buddion yn unol â hynny, unwaith y bydd y Gwasanaeth yn fodlon bod y gofynion deddfwriaethol wedi'u bodloni ar gyfer talu pensiwn plentyn.
Rheol D5(3) a (9)(c): Penderfynu ar hawlogaeth plentyn 18 oed neu'n hŷn a oedd yn ddibynnol ar yr ymadawedig oherwydd anabledd parhaol i lwfans plentyn; adolygiad o'r dyfarniad hwnnw, a'r camau a gymerir os yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn fodlon nad yw'r plentyn bellach wedi'i anablu'n barhaol.	Nid oes cyfarwyddyd yma ynglŷn â sut y dylid profi anabledd y plentyn ac felly bydd yn rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu ar bolisi priodol, e.e. barn gan YMCA. Dylai'r polisi hefyd nodi sut a phryd y dylid adolygu'r anabledd. Bydd y dyfarniad yn peidio â bod yn daladwy os yw'r Awdurdod yn fodlon nad yw'r plentyn bellach wedi'i anablu'n barhaol ac nad oes ganddo hawl i lwfans plentyn o dan unrhyw delerau cymhwysra eraill.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Dylai'r asesiad o anabledd gael ei gynnal gan YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun.
Rheol D5(5) i (8): Disgresiwn i wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub wrthod rhoi'r pensiwn plentyn yn barhaol, pan fo'r plentyn wedi'i gollfarnu o ddynladdiad yr ymadawedig hyd nes ac oni bai bod y gollfarn yn cael ei diddymu ar apêl.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol E3: Disgresiwn i ddyfarnu arian rhodd perthynas dibynnol i berthynas dibynnol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarniad arall o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â'r un diffoddwr tân.	Yn unol ag amodau Rheol E3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, gall yr Awdurdod Tân ac Achub ystyried talu arian rhodd perthynas dibynnol i berthynas dibynnol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarniad arall o dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â'r un diffoddwr tân.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol E5 ac E6 yn amodol ar gyfyngiadau yn Rheol E7 – Disgresiwn ar gyfer cymudo pensiwn dibynnydd	Pan na fo swm unrhyw bensiwn neu lwfans plant sy'n daladwy i blentyn, priod neu bartner sifil sy'n goroesi o dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, ynghyd ag unrhyw gynnydd o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971, yn fwy na'r terfyn cymudo a bennir at ddibenion Rhan 2 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (y rheolau ynghylch cyfandaliadau buddion marwolaeth), neu'r "swm a ganiateir" fel y'i diffinnir yn Rheol E7(3), ac (a) os bu farw'r priod neu'r partner sifil cyn cyrraedd 75 oed, a (b) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei fodloni bod rhesymau digonol i wneud hynny, a (c) bod y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi yn cydsynio, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gymudo'r cyfan o bensiwn priod neu bartner sifil sy'n goroesi am gyfandaliad yn unol â chyfarwyddyd Actiwari'r Cynllun ar yr adeg pan ddaw'r pensiwn yn daladwy am y tro cyntaf.	Derbyn	Rhoddir ystyriaeth i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn plentyn, priod, partner sifil, neu blentyn am gyfandaliad mewn amgylchiadau eithriadol lle gellir profi caledi ariannol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol. Ni fyddai'r Gwasanaeth yn arfer y disgresiwn hwn mewn amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, pe bai unigolyn yn codi'r mater a bod yr amgylchiadau'n cael eu hystyried yn eithriadol, byddai'r Rheolwr Cynllun yn ei ystyried.
Rheol E9(6): Penderfynu rhoi swm uwch na dyfarddal cyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.	O dan yr amgylchiadau eithriadol y dylai'r mater hwn gael ei ystyried, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i wneud dyfarniad o'r fath.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried rhoi swm uwch na chyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.

Rheol F5(1): Disgresiwn i ymestyn y cyfnod pan gaiff diffoddwr tân wneud taliad i gyfrif cyfnod pan oedd dyfarndal am anaf yn daladwy, fel gwasanaeth pensiynadwy.	Os oes gan ddiffoddwr tân hawl o dan Reol F5 i dalu i'r Awdurdod Tân ac Achub y swm sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 6, Rhan I, paragraff 1 o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 mewn perthynas â chyfnod pan oedd gan y diffoddwr tân hawl i gael pensiwn anaf, er mwyn iddo gael ei gyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy adeg ailddechrau gwasanaeth, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid gwneud y dewisiad i dalu a'r cyfnod y mae'n rhaid ei dalu (o fewn chwe mis i ailddechrau gwasanaeth).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud dewisiad i dalu am wasanaeth blaenorol pan fo Ymladdwr Tân yn dechrau gweithio gydag Awdurdod Tân arall ar ôl ymddeol heb bensiwn.
Rheol F6A(3)(b): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd."	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F6A (6): Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub ddefnyddio disgresiwn i addasu swm y gwerth trosglwyddo y mae'n ei dderbyn o dan y rheolau trosglwyddo "cam-werthu" i sicrhau nad oes dyblygu o ran y gwasanaeth pensiynadwy a gredydwyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F7(1) yn ddarostyngedig i Reol F7(2) a (3): Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i dderbyn gwerth trosglwyddo o gynllun pensiwn blaenorol diffoddwr tân ond, gyda threigl amser, mae'n annhebygol y byddai unrhyw un bellach yn bodloni'r gofyniad y dylai'r cais ysgrifenedig i'r Awdurdod gael ei wneud heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad dechrau cyflogaeth gyda'r Awdurdod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol F9(2): Ymestyn y terfyn amser o 6 mis lle gall cyn-ddiffoddwr tân neu ddiffoddwr tân mewn swydd sydd wedi optio allan o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ofyn am daliad gwerth trosglwyddo i gynllun pensiwn arall.	Os bydd cyn-ddiffoddwr tân neu ddiffoddwr tân mewn swydd sydd wedi optio allan o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 yn dod yn ddarostyngedig i gynllun pensiwn arall ac yn gofyn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu gwerth trosglwyddo i'r cynllun arall hwnnw, rhaid gwneud y cais ysgrifenedig o fewn 6 mis i ddod yn ddarostyngedig i'r cynllun arall. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol F9(5): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar ôl gadael lle mae'n rhaid i gyn-ddiffoddwr tân fod yn ddarostyngedig i gynllun newydd os yw gwerth trosglwyddo sy'n seiliedig ar ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd yn cael ei ganiatáu.	Os yw cyn-ddiffoddwr tân wedi cael ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd o dan Ran B o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ac yn dymuno dychwelyd y cyfraniadau/arian rhodd i adfer gwasanaeth pensiynadwy at ddibenion gwerth trosglwyddo i gynllun newydd, rhaid iddo fod wedi dod yn ddarostyngedig i'r cynllun hwnnw o fewn 12 mis o roi'r gorau i wasanaethu fel diffoddwr tân rheolaidd. Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser 12 mis hwn.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried sefyllfa Diffoddwr Tân sydd wedi derbyn arian rhodd neu ad-daliad o gyfraniadau sy'n gofyn am werth trosglwyddo yn lle hynny. Rhaid ad-dalu'r cyfraniadau neu'r arian rhodd hefyd.
Rheol G2(2): Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau pensiwn o randaliadau tâl pensiynadwy.	Mae cyfraniadau fel arfer yn cael eu didynnu o randaliadau cyflog ond mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i gasglu'r cyfraniadau sy'n ddyledus trwy ddulliau eraill pe bai angen.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol G2A (3) - Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol di-dâl.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ganiatáu ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod (gan gyfrif o'r diwrnod y mae'r person yn dychwelyd i'r gwaith neu, os nad yw'n dychwelyd i'r gwaith, o ddiwrnod olaf ei gyflogaeth gyda'r Awdurdod) ar gyfer dewisiad i dalu cyfraniadau mewn perthynas ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu na fyddai fel arall yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy.	Derbyn	Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried hyd at uchafswm o 90 diwrnod.

Rheol G6(4): Disgresiwn i beidio â derbyn dewisiad diffoddwr tân i brynu mwy o fuddion trwy dalu cyfraniadau ychwanegol oni bai bod y diffoddwr tân wedi cael archwiliad meddygol ar ei gost ei hun ac wedi bodloni'r Awdurdod Tân ac Achub bod ei iechyd mewn cyflwr da.	Os yw aelod-ddiffoddwr tân o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 yn dymuno prynu mwy o fuddion drwy dalu cyfraniadau ychwanegol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r person ei fodloni bod ganddo ddisgwyliad oes arferol ar adeg y cais drwy gael archwiliad meddygol ar ei gost ei hun. Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn defnyddio'r disgresiwn hwn bydd yn rhaid iddynt ystyried pwy fydd yn darparu'r farn feddygol, e.e. meddyg teulu'r diffoddwr tân, neu Feddyg Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod, neu YMCA.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Byddai'r asesiad hwn yn cael ei gynnal gan yr YMCA a benodir gan y Rheolwr Cynllun
Rheol G7(3): Disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub i gytuno i roi'r gorau i dalu cyfraniadau cyfnodol ar gyfer mwy o fuddion pan fo'n fodlon bod y taliad hwnnw yn achosi, neu'n debygol o achosi, caledi ariannol i'r diffoddwr tân.	Os yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn fodlon bod talu cyfraniadau cyfnodol ar gyfer mwy o fuddion yn achosi, neu'n debygol o achosi, caledi ariannol i'r diffoddwr tân, gall roi caniatâd i beidio â pharhau â'r taliad am unrhyw gyfnod y gwêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Pwrrpas y disgresiwn hwn yw caniatáu i Diffoddwr Tân roi'r gorau i wneud cyfraniadau ychwanegol.
Rheol H2(4)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar farn feddygol.	Pan fo person, sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ar sail barn feddygol o dan Reol H2 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, yn methu â chyflwyno'r hysbysiad apêl ac unrhyw ddogfennau ategol o fewn y 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno apêl o'r fath, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol H3: Gofyniad i ymdrin ag anghytundeb unigolyn drwy gyfrwng Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau a sefydlwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn unol â gofynion adran 50 Deddf Pensiynau 1995, pan fo'r anghytundeb yn ymwneud â phenderfyniad yr Awdurdod o dan Reol H1, ac nad yw'r anghytundeb yn ymwneud â mater meddygol ei natur.	Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub gymhwyso gofynion Rheol H3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ac Adran 50 Deddf Pensiynau 1995 gyda Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau dau gam. Fodd bynnag, mae ganddynt ddisgresiwn i benderfynu pwy fydd y gwneuthurwyr penderfyniadau yng Ngham Un a Cham Dau.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae angen cynnal ac adolygu polisi ysgrifenedig Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau sy'n cynnwys manylion am y gwneuthurwyr penderfyniadau ac aelodau'r panel yn rheolaidd. Gweithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau a dogfennaeth ategol yn unol â rheoliadau LIC.
Rhan 1A: Aelodau â chredyd pensiwn.	Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn darparu prisiadau pensiwn, ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag ysgariad neu achos o ddiddymu partneriaeth sifil a bydd yn cymryd camau priodol i gofnodi a gweinyddu Gorchmynion Atafaelu. Os bydd Gorchmyn Rhannu Pensiwn, bydd hawliau pensiwn aelod o'r Cynllun yn cael eu dosrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llys, deddfwriaeth ysgariad/diddymu, Rheol B12 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, a'r ffactorau a ddarparwyd gan Actiwari'r Cynllun; bydd hawlogaeth pensiwn aelod â chredyd pensiwn yn cael ei weinyddu yn unol â Rhan 1A. Ar yr adeg y daw'r buddion credyd pensiwn yn daladwy, bydd yr aelod â chredyd pensiwn yn cael gwybod am yr opsiwn i gymudo a'r hawliau apelio. Gall yr Awdurdod bennu'r tâl a godir am y gwaith gweinyddol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
Rheol IA2 (1) – Cymudo buddion credyd pensiwn	Cymudo'r cyfan o bensiwn y mae gan aelod â chredyd pensiwn hawl iddo am gyfandaliad.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol.

Rheol K1(1) a (2): Gofyniad i benderfynu, yn ôl yr ysbeidiau y mae Awdurdod Tân ac Achub yn eu hystyried yn briodol, a yw person sydd o dan 60 oed ac sydd wedi bod yn cael pensiwn afiechyd am lai na 10 mlynedd wedi dod yn alluog i gyflawni unrhyw ddyletswydd sy'n briodol i'r rôl y bu i'r person ymddeol ohoni ar sail afiechyd ac, yn achos pensiwn afiechyd haen uwch, a yw'r person hwnnw wedi dod yn alluog i ymgymryd â chyflogaeth reolaidd.	Er bod gofyniad i adolygu hawlogaeth i bensiwn afiechyd yn unol â'r Rheol hon, gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu pryd y dylid adolygu'r pensiwn. Mae adolygiad o bensiynau gohiriedig a dalwyd yn gynnar ar sail afiechyd yn cael eu cynnwys yma hefyd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Gofyniad i adolygu pensiynau afiechyd llai na 10 mlynedd ar ôl ymddeol. Mae angen polisi ysgrifenedig ffurfiol ar ymddeol ar sail afiechyd yn nodi amserlenni ar gyfer adolygu a'r broses ymddeol ar sail afiechyd
Rheol K3(1): Disgresiwn i leihau lefel pensiwn afiechyd i ddim llai na hanner y swm llawn pan fo diffoddwr tân wedi cyfrannu at ei wendid drwy ei ddiffyg ei hun.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub, os yw'n teimlo ei fod yn briodol yn unol ag amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheol K3, ystyried defnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rheol K3 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i leihau dyfarniad afiechyd lle mae'r diffoddwr tân wedi'i anablu'n barhaol ac wedi achosi neu gyfrannu at ei wendid trwy ei ddiffyg ei hun. Byddai swm y pensiwn gostyngol yn cael ei gynyddu i lefel pensiwn gohiriedig tybiannol pan fydd y person yn cyrraedd 60 oed.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu lleihau pensiwn Diffoddwr Tân i ddim llai na hanner y swm sy'n ddyledus pan ystyrir ei fod wedi cyfrannu at ei wendid trwy ei ddiffyg ei hun.

Rheol K4 Atal pensiwn tra'n gyflogedig gan awdurdod tân ac achub (atal)	Diwygio cynllun 1992 i ehangu disgresiwn y cyflogwr i atal pensiwn a delir i aelod sy'n cael ei ailgyflogi mewn unrhyw rôl gan unrhyw awdurdod tân ac achub; ac i'w gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sy'n talu'r pensiwn dalu i mewn i'r gronfa bensiwn swm y pensiwn a delir a allai fod wedi bod yn destun gostyngiad o dan reolau'r cynllun. Byddai'r gofyniad i'r cyflogwr fod yn atebol am y costau pan nad yw'n arfer y disgresiwn i leihau pensiwn aelodau yn berthnasol i gynlluniau 1992 a 2007. Mae Gorchymyn Diwygio 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ad-dalu'r gronfa bensiwn os nad yw'n arfer y disgresiwn i atal pensiwn aelod wrth iddynt ailddechrau gwasanaeth.	Derbyn	Bydd y broses o leihau pensiwn, ar sail £ am £, yn berthnasol pan fydd enillion ynghyd â thaliadau pensiwn yn y rôl newydd yn fwy nag enillion yn y rôl flaenorol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu lleihau pensiwn lle mae'r cyflogai wedi cael ei ailgyflogi, yn unol â'r rheoliadau, a byddai angen cynnal asesiad ffurfiol i'w leihau.
Rheol K5(1): Disgresiwn i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn barhaol neu dros dro, ar gollfarn unigolyn o droseddau penodol.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rheol K5 o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i atal pensiwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol pan fo pensiywr wedi'i gollfarnu o dramgwydd (yn achos priod, neu bartner sifil mae hyn yn golygu tramgwydd a gyflawnwyd ar ôl marwolaeth yr aelod) fel y gwêl yr Awdurdod yn dda o dan amgylchiadau unrhyw achos sy'n dod o fewn telerau Rheol K5 ac yn amodol ar ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol lle bo angen. Mae'r troseddau'n cynnwys y rhai yr ystyrir eu bod wedi bod yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Wladwriaeth (gan gynnwys tramgwydd brad neu dramgwydd o dan Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989) neu sy'n debygol o arwain at golli hyder yn y gwasanaeth cyhoeddus i raddau difrifol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Dim ond mewn achos o frad neu drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol y mae'r disgresiwn hwn yn berthnasol.
Rheol K5(5): Disgresiwn i ad-dalu i'r pensiywr, ar unrhyw bryd ac i'r graddau y gwêl yr Awdurdod Tân ac Achub yn dda, pensiwn sydd wedi'i atal o dan Reol K5(1) neu ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensiywr.	Os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn atal pensiwn o dan Reol K5(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, yn amodol ar amgylchiadau'r achos, gall ystyried ei gymhwyso er budd unrhyw un o ddibynyddion y pensiywr neu ei ad-dalu i'r pensiywr ar unrhyw adeg, ac i'r graddau y gwêl yn dda.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried adfer y pensiwn a dynnwyd yn ôl o ganlyniad i benderfyniad yn Rheol K5(1).

Rheol L3(1): Penderfynu yn ôl pa ysbeidiau fydd rhandaliadau pensiwn neu lwfans yn cael eu talu.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu yn ôl pa ysbeidiau y dylid talu rhandaliadau pensiwn neu lwfans. (Nid oes angen talu ymlaen llaw mwyach.)	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu trefnu taliadau misol arferol o bensiwn blynyddol, neu os bydd yr angen yn codi, yn ôl ysbeidiau eraill fel y gwêl y Rheolwr y Cynllun yn dda.
Rheol L3(1): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub ddefnyddio ei ddisgresiwn o dan Reol L3(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch eu hatebolrwydd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod Tân ohirio talu swm dyfarniad nes ei fod yn fodlon ar gymhwystra dyfarniad.
Rheol L3(7) ac (8): Disgresiwn i benderfynu ar ddyddiad talu cynharach ar gyfer buddion goroeswyr na'r dyddiad a bennwyd (blwyddyn ers dyddiad y farwolaeth) lle cafodd yr ymadawedig arian rhodd neu gyfandaliad, ac opsiwn i dalu arian rhodd mewn rhandaliadau yn hytrach nag fel un cyfandaliad.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i benderfynu ar y dyddiad talu a disgresiwn o ran talu o dan yr amgylchiadau uchod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu buddion goroeswr, sydd fel arfer yn cael eu talu flwyddyn ar ôl y dyddiad y bu farw'r aelod, ynghynt. Mae opsiwn hefyd i dalu swm llai mewn rhandaliadau rheolaidd lle byddai hyn o fantais i'r sawl sydd â hawlogaeth.
Rheol L3(9): Ad-dalu cyfraniadau pensiwn cyfanredol.	Pan fo gan berson hawlogaeth o dan Reol B6 Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 i gael ad-daliad o'i gyfraniadau pensiwn cyfanredol, nid yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhwym i wneud taliad tan flwyddyn o ddyddiad ymddeol y person oni bai bod y person yn gwneud cais am daliad ynghynt, neu fod yr Awdurdod yn defnyddio ei ddisgresiwn i wneud taliad ynghynt.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Rheol L5(1): Talu dyfarndaliadau – pobl ifanc dan oed.	Caiff yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ôl ei ddisgresiwn ac fel y gwêl yn briodol, dalu pensiwn pobl ifanc dan oed i unrhyw berson arall a bennir ganddynt. Gallant roi cyfarwyddiadau i'r person hwnnw ynghylch defnyddio'r pensiwn er budd y person ifanc dan oed.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu talu unrhyw swm sy'n ddyledus i blentyn dan oed i berson priodol. Bydd hyn yn cael ei bennu ar sail pob achos unigol.
Rheol L5(2): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn o ran derbynnydd, neu ddefnyddio, taliadau sy'n ddyledus i bersonau sy'n analluog i reoli eu materion eu hunain.	Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Tân ac Achub fod person sydd â hawlogaeth i gael taliad dyfarndal, oherwydd anhwylder meddwl neu fel arall, yn analluog i reoli ei faterion, caiff yr Awdurdod ddefnyddio ei ddisgresiwn i: a) dalu'r budd-daliad neu unrhyw ran ohono i berson sydd â gofal dros y person a chanddo hawlogaeth, neu i unrhyw berson arall a ddyfernir ganddynt, neu b) defnyddio'r buddion mewn modd a benderfynir gan yr Awdurdod er budd y person sydd â hawlogaeth, neu buddiolwyr y person hwnnw.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried talu dyfarndal i berson priodol os bernir nad yw'r derbynnydd yn gallu rheoli ei faterion ei hun neu mewn modd y penderfynir ei fod er lles pennaf yr unigolyn.
Rheol L5(3): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn, yn dilyn marwolaeth person, o ran derbynnydd(derbynwyr) symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.	Yn sgil marwolaeth person yr oedd dyfarniad yn ddyledus iddo a chyn i'r dyfarniad gael ei dalu, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn o ran pwy sy'n derbyn y swm sy'n ddyledus os yw'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965 (£5,000 ar hyn o bryd).	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymdrin â dyfarndaliadau o lai na £5,000 ac yn caniatáu i'r Rheolwr Cynllun benderfynu pwy ddylai gael y swm hwn.
Rheol L5 (6) i (9): Atal pensiwn mewn achosion o dwyll, lladrad neu esgeuluster	Atal y cyfan neu ran o unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ddiffoddwr tân mewn perthynas â phensiwn lle bu twyll, lladrad, neu esgeuluster ar ran y diffoddwr tân mewn cysylltiad â'i gyflogaeth gan arwain at golled yng nghronfeydd yr Awdurdod.	Derbyn	Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob achos yn unigol. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu i'r Awdurdod adennill symiau a gollwyd o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth.

Atodlen 6, Rhan 1, paragraff 1(4): Disgresiwn i ddiynnu o ddyfarniad unrhyw daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol.	Os bydd gan unrhyw aelod-ddiffoddwr tân daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol ar adeg ymddeol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ddiynnu'r swm sy'n weddill o daliadau'r dyfarnal a wneir iddo/iddi.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn ymwneud ag aelod sydd wedi dewis talu symiau ychwanegol mewn perthynas â gwasanaeth pensiwn blaenorol ac yna'n ymddeol cyn cwblhau'r taliadau. Mae'r cynllun yn gofalu y byddant yn derbyn pensiwn fel pe baent wedi cwblhau'r taliadau. Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu adennill y taliadau na chafodd eu gwneud.
Atodlen 9, Rhan I, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 28 diwrnod lle mae'n rhaid i berson gyflwyno unrhyw apêl feddygol, i gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis o ddyddiad dyroddi'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Rheol H2(4) i'r person hwnnw, ar yr amod bod yr Awdurdod Tân ac Achub o'r farn nad oedd methiant y person i gyflwyno'r apêl o fewn 28 diwrnod yn ganlyniad i'w ddiffyg ei hun.	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl feddygol, fel yr amlinellir uchod.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub mewn cyfweiliad Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub mewn cyfweiliad Bwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD

Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 5: Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Gall yr Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen Mae'r disgresiwn hwn yn caniatáu ystyried a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Fwrdd Apeliadau Meddygol. Yn ymarferol, mae hyn bob amser yn digwydd. Wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm a wêl yr Awdurdod yn dda, nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd fel y'i pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.	Pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan bod yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd, yn ei farn ef, yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd o dan Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 7(1) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 fel y'u pennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen

Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2A): Disgresiwn Awdurdod Tân ac Achub i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu swm i'r Awdurdod nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd, pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd.	Pan fo'r apelydd yn tynnu apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfweliad neu archwiliad meddygol gan y Bwrdd Apeliadau Meddygol lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, neu os yw gweithred neu anweithred yr apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio fel arall y dyddiad a bennwyd o dan Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(2) Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ar gyfer cyfweliad lai na 22 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddisgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r Awdurdod swm sydd yr un faint, ond nid yn fwy na, chyfanswm y ffioedd a lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.	Derbyn	Heb ei gynnwys o'r blaen
--	--	----------------------	--

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992

Dirprwyaethau Awdurdodedig

A: Yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Pwyllgor priodol o dan bwerau dirprwyedig.

B: Y Prif Swyddog Tân neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o dan bwerau dirprwyedig

C: Y swyddog enwebedig neu Gynllun Pensiwn Dyfed fel darparwr gwasanaethau gweinyddu pensiwn yr Awdurdod. Byddai hyn o dan bwerau dirprwyedig ac yn unol â:

- chyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer achosion unigol (Lefel A)
- cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr perthnasol (Lefel B).

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad/gweithredu ar Lefelau B neu C mewn perthynas â pherson a fyddai fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar y lefel honno, bydd y penderfyniad/gweithredu yn digwydd ar Lefel "A".

CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 1992

Darpariaeth Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (fel y'i diwygiwyd)	Lefel y penderfyniad			Sylwadau
	A	B	C	Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol B1(2)(b): Caniatâd i Brif Swyddog Tân a benodwyd ar 1.7.2013, neu cyn hynny, ymddeol cyn cyrraedd 55 oed.	✓			Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol B5C: Statws pensiynadwy i daliadau, nad ydynt yn bensiynadwy fel arall, ar gyfer Buddion Pensiwn Ychwanegol. O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol B7(5A): Caniatâd ar gyfer cymudo un chwarter lle na chaniateir gwneud hynny fel arall o dan reolau'r Cynllun.	✓			
Rheol B8: Disgresiwn i gymudo, am "gyfandaliad mân-gymudo", pensiwn bach sy'n daladwy i bensiynwr ddiffoddwr tân.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B9(2)(b): Disgresiwn i ganiatáu dyraniad i ddibynnydd heblaw priod neu bartner sifil.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B9(6): Prawf o ddisgwyliad oes at ddibenion dyrannu.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol B12: Aelodau â debyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol C8(6): Disgresiwn i gynyddu'r dyfarndal i briod/partner sifil sy'n goroesi ac yn byw ar wahân i'r diffoddwr tân ar ddyddiad y farwolaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol C8(7): Disgresiwn i dalu arian rhodd i briod/partner sifil sy'n goroesi ac yn byw ar wahân i'r diffoddwr tân ar ddyddiad y farwolaeth.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(1) a (2): Dod â thaliad pensiwn plentyn i ben.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(3) a (9)(c): Adolygu pensiwn plentyn anabl.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol D5(5) i (8): Atal pensiwn plentyn ar gollfarn o ddynladdiad y diffoddwr tân ymadawedig.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E3: Disgresiwn i dalu arian rhodd perthynas dibynnol i berthynas dibynnol nad oes ganddo hawl i unrhyw ddyfarndal arall.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheolau E5 ac E6: Disgresiwn i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn priod/partner sifil sy'n goroesi, am gyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E6, Rheol E7, Atodlen 5 Rhan III: Disgresiwn i gymudo swm cyfyngedig o bensiwn plentyn, am gyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol E9(6): Penderfynu rhoi swm uwch na dyfarndal cyfradd safonol y plentyn pan nad yw'r un o rieni'r plentyn yn fyw.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F2(5): Disgresiwn i'r Awdurdod Tân ac Achub dalu cyfraniad cyflogwr yn ystod cyfnod o absenoldeb.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol F4(3)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i wneud taliad er mwyn cyfrif gwasanaeth blaenorol wrth ailymuno.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol F5(1): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 6 mis ar gyfer dewisiad i wneud taliad er mwyn cyfrif y cyfnod pan dalwyd dyfarndal am anaf.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F6A(3)(b): Ymestyn y terfyn amser o 12 mis ar gyfer derbyn taliad gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd".		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr

F6A (6): Disgresiwn i addasu gwerth trosglwyddo pensiynau a "gamwerthwyd" er mwyn ystyried credyd am unrhyw wasanaeth blaenorol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F7(1), Rheol F7(2) a (3): Disgresiwn i dderbyn taliadau gwerth trosglwyddo.		✓		Ddim yn berthnasol mwyach
Rheol F9(2): Ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am daliad gwerth trosglwyddo i gynllun pensiwn arall.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol F9(5): Ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am daliad trosglwyddo yn seiliedig ar ad-daliad o gyfraniadau pensiwn neu arian rhodd a ddychwelwyd.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol G2(2): Disgresiwn i ddidynnu cyfraniadau o randaliadau tâl pensiynadwy.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol G2A (3): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer gwneud dewisiad i dalu cyfraniadau ar gyfer absenoldebau mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ychwanegol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol G6(4): Disgresiwn i beidio â derbyn dewisiad i brynu mwy o fuddion oni bai bod diffoddwr tân yn gallu dangos bod ei iechyd mewn cyflwr da.		✓		
Rheol G7(3): Disgresiwn i gytuno y dylai diffoddwr tân sydd wedi gwneud dewisiad i brynu mwy o fuddion roi'r gorau i dalu ar sail caledi ariannol.			✓	Timau Pensiynau/Cyflogres
Rheol H2(4)(c): Disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u seilio ar farn feddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheol H3: Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau		✓		Yn unol â'r polisi Gweithdrefnau Mewnol i Ddatrys Anghydfodau
Rhan IA: Hawlogaeth pensiwn i aelodau â chredyd pensiwn.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rhan IA2(1): Disgresiwn i gymudo pensiwn bach sy'n daladwy i aelod â chredyd pensiwn.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K1(1) a (2): Adolygu pensiynau afiechyd.			✓	Yn unol â'r Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Rheol K3(1): Disgresiwn i leihau pensiwn afiechyd pan fo diffoddwr tân wedi cyfrannu at ei wendid drwy ei ddiffyg ei hun.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K4: Disgresiwn i atal y cyfan neu ran o bensiwn ar ôl ailddechrau cyfnod o wasanaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K5(1): Disgresiwn i atal pensiwn yn sgil colfarnu person am dramgwyddau penodol.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol K5(5): Disgresiwn i adfer pensiwn a gafodd ei atal o dan Reol K5(1).		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(1): Penderfynu yn ôl pa ysbeidiau fydd rhandaliadau pensiwn neu lwfans yn cael eu talu.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(1): Disgresiwn i ohirio talu dyfarniad i'r graddau y bo'n angenrheidiol i ddyfarnu unrhyw gwestiwn ynghylch atebolrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(7) ac (8): Disgresiwn i benderfynu ar ddyddiad talu cynharach ar gyfer buddion goroeswr lle cafodd yr ymadawedig arian rhodd neu gyfandaliad, ac opsiwn i dalu arian rhodd mewn rhandaliadau yn hytrach nag fel un cyfandaliad.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L3(9): Ad-dalu cyfraniadau pensiwn cyfanredol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(1): Talu dyfandaliadau – plant.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(2): Talu dyfandaliadau – person sy'n analluog i reoli ei fusnes ei hun		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr

Rheol L5(3): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn o ran derbynwyr symiau sy'n llai na'r swm a bennir yn Neddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Rheol L5(6) i (9): Talu dyfarndaliadau – disgresiwn i atal symiau os bydd colled o ganlyniad i dwyll, lladrad neu esgeuluster ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'i gyflogaeth, yng nghronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub.		✓		Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Atodlen 6, Rhan 1, paragraff 1(4): Disgresiwn i ddiynnu o'r dyfarniad unrhyw daliadau sy'n weddill mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol.			✓	Ar y cyd â'r gweinyddwyr
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 1(2): Disgresiwn i ymestyn terfyn amser ar gyfer apêl feddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 4(5): Disgresiwn i benodi cynrychiolydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn y Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 5: Disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Meddygol.		✓		Pennaeth AD/Perchennog y Polisi Ymddeol ar Sail Afiechyd
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2): Disgresiwn, pan fo'r Bwrdd Apeliadau Meddygol yn dyfarnu apêl o blaid yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn datgan mai, yn ei farn ef, yr oedd yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail, i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd.		✓		
Atodlen 9, Rhan 1, paragraff 8(2A): Disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd dalu i'r awdurdod swm nad yw'n fwy na chyfanswm y ffioedd a'r lwfansau sy'n daladwy i'r Bwrdd pan fo'r apelydd yn tynnu'r apêl yn ôl neu'n gofyn am ganslo neu ohirio dyddiad cyfweiliad/archwiliad meddygol llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd, neu pan fo gweithred neu anweithred apelydd yn peri i'r Bwrdd ganslo neu ohirio'r dyddiad hwnnw, llai na 22 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennwyd.		✓		